

This document is available in English



Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd Gwent

Cynllun Cydraddoldeb Strategol
Adroddiad Blynyddol 2020/21

1. Cyflwyniad

Yn ystod haf 2020, cyhoeddodd Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd (Swyddfa'r Comisiynydd) a Heddlu Gwent y Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar y Cyd (CCS) 2020-2024 i helpu i gyflawni ein dyletswyddau fel awdurdodau cyhoeddus, fel yr amlinellir yn y Ddeddf Cydraddoldeb 2010 – [Cynllun Cydraddoldeb Strategol | Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd Gwent \(pcc.police.uk\)](https://www.pcc.police.uk). Cyflwynodd y CCS bedwar amcan cydraddoldeb ar gyfer y cyfnod pedair blynedd, y cytunwyd arnynt yn dilyn ymgynghoriad gyda'n cymunedau a staff. Mae gennym Gynlluniau Cyflawni sefydliadol i'n helpu ni i gyflawni'r amcanion hyn, sy'n ein galluogi ni i gadw golwg ar ein cynnydd ac maent yn sail i'r adroddiad hwn.

Yn ystod 2020/21 parhaodd Swyddfa'r Comisiynydd i ddatblygu'r CCS newydd yn erbyn cefndir COVID-19. O ganlyniad i'r effaith ar ein harferion gweithio, aeth ein hymgyngoriad â'r gymuned i mewn i fis Ebrill 2020 gan arwain at gyhoeddi'r ddogfen CCS yn hwyrach na'r arfer. Mae'r gwaith a wnaed yn ystod y cyfnod hwn yn pontio'r amcanion blaenorol a'r rhai presennol. Yn ogystal, tynnodd y mudiad Mae Bywydau Du o Bwys sylw pellach at anghydraddoldeb hiliol a chymdeithasol a phroblemau cyfiawnder troseddol.

Mae ein CCS yn cydnabod bod angen i wasanaethau fynd i'r afael â phroblemau anghydraddoldeb lle bynnag y maent yn digwydd. Mae hefyd yn cydnabod yr heriau sylweddol y mae angen rhoi sylw iddynt er mwyn darparu gwasanaeth plismona sy'n rhoi sylw i bob anghydraddoldeb ac yn hybu cydraddoldeb ar draws yr holl nodweddion gwarchoddedig. Er bod yr Adroddiad Blyneddol hwn yn rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â'n cynnydd ac yn ein helpu i gyflawni ein dyletswyddau dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, mae hefyd yn ein galluogi ni i ddathlu llwyddiannau wrth weithio i gyflawni gwasanaeth heddlu a chyfiawnder troseddol mwy teg a chynhwysol.

Hwn yw'r adroddiad cyntaf ar gyfer y Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-24. Mae nifer o weithgareddau wedi cael eu hetifeddu o'r CCS blaenorol er mwyn sicrhau parhad yn y ddarpariaeth; bydd angen gwaith ychwanegol ar eraill i ni allu dangos llwyddiant, a fydd yn cael ei nodi yn y ddogfen hon. Dylid darllen yr adroddiad hwn ar y cyd ag Adroddiad Cydraddoldeb Blyneddol Heddlu Gwent ar gyfer 2020/21.

Sylwer – mae'r term 'Nodweddion Gwarchoddedig' a ddefnyddir yn y ddogfen hon yn cyfeirio at nodweddion oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, hil, crefydd, beichiogrwydd a mamolaeth a rhyw.

2. Ein Hamcanion Cydraddoldeb

Datblygwyd ein CCS 2020-24 yn unol ag egwyddorion sylfaenol a fydd yn ein helpu ni i gyflawni ein hamcanion. Rydym yn dymuno:

- Darparu gwasanaeth heddlu sy'n adlewyrchu'r cymunedau a wasanaethir;
- Meithrin diwylliant sefydliadol sy'n dangos pwysigrwydd cydraddoldeb a chynwysoldeb

- Darparu gwasanaeth o ansawdd uchel y gall cymunedau amrywiol Gwent ei ddefnyddio'n hyderus ac ymgysylltu ag ef

Mae gwaith i gyflawni ein Hamcanion Cydraddoldeb yn adlewyrchu'r pum blaenoriaeth a nodir yng Nghynllun Heddlu a Throsedd Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd 2017-2021:

- Atal Trosedd
- Cefnogi dioddefwyr
- Cydlyniant cymunedol
- Mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol
- Darparu gwasanaethau yn effeithiol


Oherwydd bod etholiadau Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd wedi cael eu gohirio yn ystod 2020 oherwydd pandemig Covid, carwyd Cynllun yr Heddlu a Throsedd 2017-2020 drosodd i 2021/22. Bydd y CCS yn cael ei adolygu i adlewyrchu unrhyw newid mewn meysydd blaenoriaeth pan fydd y Cynllun Heddlu a Throsedd newydd ar gyfer 2021-2024 yn cael ei gyhoeddi.

Mae ein hymrwymiad i gydraddoldeb yn rhan annatod o werthoedd Swyddfa'r Comisiynydd, sy'n gweithredu fel sail i bopeth a wnawn.

Byddwn yn ymddwyn	Byddwn yn
<ul style="list-style-type: none"> • Yn agored - trwy fod yn atebol (yn fewnol ac yn allanol), yn llawn gwybodaeth, yn hygyrch a thrwy ymgysylltu • Yn empathetig – trwy fod yn ofalgar, trwy wrando, deall ac ymateb • Gydag uniondeb – trwy fod yn onest, yn wasanaeth y gellir ymddiried ynddo, yn broffesiynol ac yn deg 	<ul style="list-style-type: none"> • Grymuso – trwy greu amgylchedd sy'n cefnogi staff a chymunedau i benderfynu a chyflawni canlyniadau • Arloesi – trwy greu amgylchedd lle mae arloesedd yn ffynnu, yn unigol a gyda'n gilydd

Mae staff Swyddfa'r Comisiynydd wedi ymrwymo i weithio yn unol â'r Cod Moeseg ac Egwyddorion Nolan ar gyfer Bywyd Cyhoeddus.

Rydym hefyd yn gweithio yn unol ag egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru feddwl am effaith hirdymor eu penderfyniadau er mwyn gweithio'n well gyda phobl, cymunedau a'i gilydd, ac atal problemau parhaus megis tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid yn yr hinsawdd. Mae gan y Ddeddf saith nod llesiant sy'n cryfhau ein gwaith i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb, hybu cydlyniant a chefnogi iechyd a lles ein staff a'r rhai sy'n dod i gysylltiad â ni:



Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi parhau i weithio gyda Heddlu Gwent i ddatblygu a gweithredu Cynllun Cyflawni Cydraddoldeb cadarn ac effeithiol, sy'n gyfochrog ag un Swyddfa'r Comisiynydd. Bydd y gwaith hwn yn ein galluogi ni i adnabod a deall ansawdd y gwasanaeth a ddarperir i unigolion o gymunedau sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig yn well, yn ogystal â bod yn ddefnyddiol yn fewnol o ran cynrychioli'r gweithlu, gan ganiatáu inni argymhell arferion gwell pan fo hynny'n berthnasol.

Ar 31 Mawrth 2021, daeth y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol i rym yng Nghymru. Mae hyn yn golygu, wrth wneud penderfyniadau strategol, bod rhaid inni ystyried sut y gallwn leihau anghydraddoldebau sy'n gysylltiedig ag anfanteision economaidd-gymdeithasol. Mae ein hamcanion yn cynnwys canlyniadau sy'n ymwneud â'r ddyletswydd newydd a byddant yn ategu ein cydymffurfiaeth â gofynion y ddyletswydd.

3. Y Diweddaraf am ein Hamcanion Cydraddoldeb

Wrth ddatblygu ein CCS a nodi'r gweithgareddau sy'n sail i'n Cynlluniau Cyflawni, gwnaethom sylweddoli bod gwella ansawdd data a'r gallu i ddadansoddi gwybodaeth yn sylfaenol i'n llwyddiant ar draws y pedwar amcan. Mae hyn yn cynnwys sefydlu proses meincnodi effeithiol a gwella prosesau monitro a chraffu Heddlu Gwent a Swyddfa'r Comisiynydd. Er bod y gwaith hwn wedi dechrau yn ystod blwyddyn yr adroddiad hwn, gan ei fod mor helaeth ac arwyddocaol, ac oherwydd ei fod yn cysylltu â gweithgareddau partneriaeth tebyg ledled Cymru, rhagwelwn y bydd y rhan fwyaf o'r gweithgarwch yn digwydd yn 2021/22 ac i mewn i 2022/23. Byddwn yn parhau i weithio gyda Heddlu Gwent, yn rhoi cymorth iddynt ac yn eu herio wrth iddynt ddatblygu eu prosesau data yn ystod y cyfnod hwn.

I gefnogi gwaith Heddlu Gwent yn datblygu a gweithredu eu Cynllun Cyflawni Cydraddoldeb, ym mis Rhagfyr 2020 arweiniodd Swyddfa'r Comisiynydd weithdy gyda Phenaethiaid Gwasanaeth Heddlu Gwent i roi cymorth iddynt wreiddio'r Cynllun ar draws y sefydliad. Nod y gwaith hwn oedd:

- Meithrin gwell dealltwriaeth o fewn y sefydliad o sut mae'r amcanion a chanlyniadau cydraddoldeb yn berthnasol i bob maes plismona;
- Dangos sut y bydd cofnodi data'n well yn hwyluso darpariaeth gwasanaeth; a
- Dangos sut y gall defnyddio'r data hwn hybu mwy o ystyriaeth o sut mae ein gwasanaethau a gweithgareddau'n effeithio ar ein cymunedau.

Mae'r diweddariadau a ddarperir yn yr adroddiad hwn yn ymwneud â gweithgareddau yng Ngham 1 Cynllun Cyflawni Cydraddoldeb Swyddfa'r Comisiynydd.

Amcan Cydraddoldeb 1: Cefnogi Pobl sy'n Agored i Niwed

Ymchwilio a sicrhau cyfiawnder am droseddau sy'n cael yr effaith fwyaf ar bobl agored i niwed, gan sicrhau cymorth effeithiol i ddiodefwyr.

A. Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol

Ar ddechrau pandemig Covid-19 yn y DU, arweiniodd y cyfyngiadau symud a chyfyngiadau eraill at bryder cynyddol am ddiogelwch pobl a oedd yn profi cam-drin domestig a thrais rhywiol. Teimlwyd yr effaith ar draws ein gwasanaethau i ddiodefwyr a'r system cyfiawnder troseddol ehangach, a chanolbwyntiodd llawer o'n gwaith partner yn ystod y cyfnod hwn ar roi cymorth i asiantaethau gyda chynlluniau wrth gefn a chynlluniau adfer. Trwy gyfarfodydd ffurfiol ac anffurfiol, a thrwy ein gwaith monitro a chraffu ar berfformiad, gwnaethom barhau i gefnogi ac annog Heddlu Gwent i wella eu prosesau casglu a monitro data er mwyn hwyluso gwell dealltwriaeth o sut roedd y pandemig yn effeithio ar ddiodefwyr ac a oedd unrhyw newid o ran nifer yr hysbysiadau a dderbyniwyd gan wasanaethau.

Fel enghraifft, mae'r tabl canlynol yn cymharu nifer yr atgyfeiriadau at gynadleddau amlasiantaeth asesu risg (MARAC) a gofnodwyd gan Heddlu Gwent ar gyfer cyfnod yr adroddiad hwn yn erbyn y niferoedd a argymhellir gan yr elusen cam-drin domestig annibynnol SafeLives:

Atgyfeiriadau MARAC	2019/20	2020/21	Argymhellir
<i>Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol</i>	3.5%	3.5%	6.0%
<i>LHDT+</i>	0.9%	1.4%	2.5% - 5/0%
<i>Anabledd</i>	1.8%	1.9%	18%+
<i>Gwryw</i>	4.3%	4.2%	5% - 10%

Er bod y ffaith na chyrhaeddodd niferoedd yr hysbysiadau a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn y lefelau a argymhellir gan SafeLives yn dal yn achos pryder, rydym yn cydnabod yr heriau a achoswyd, nid yn unig gan y pandemig ond hefyd gan broblemau ehangach ymddiriedaeth a hyder pobl ethnig leiafrifol yn yr heddlu a gwasanaethau cyfiawnder troseddol sydd wedi dod i'r amlwg yn ystod yr un cyfnod.

Trwy gydol y pandemig, rydym wedi parhau i godi ymwybyddiaeth o'r cymorth sydd ar gael i bobl sy'n dioddef cam-drin domestig a thrais rhywiol. Ym mis Ebrill, cadarnhaodd y Comisiynydd ymrwymiad parhaus Heddlu Gwent i fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV) - [Ni ddylai neb ddiodefwyr cam-drin domestig a thrais rhywiol | Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd Gwent \(pcc.police.uk\)](#). Rhoddodd y Comisiynydd gefnogaeth i lansiad Heddlu Gwent o'r ymgyrch *Darllen rhwng y Llinellau* hefyd, a oedd yn annog pobl i helpu diodefwyr cam-drin domestig – [Darllen rhwng y llinellau gydag ymgyrch newydd Heddlu Gwent | Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd Gwent \(pcc.police.uk\)](#)

Ar lefel strategol, mae Swyddfa'r Comisiynydd yn aelod gweithredol o Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol VAWDASV a'r Grŵp Cyflawni cysylltiedig, sy'n gyfrifol am

y Cynllun Cyflawni Strategol. Pedwaredd flaenoriaeth y Cynllun yw sicrhau bod ein gwaith mewn perthynas â VAWDASV yn cynnwys pob un o'n cymunedau. Mae Tîm Cyfathrebu ac Ymgysylltu Swyddfa'r Comisiynydd yn arwain gwaith cyfathrebu ac ymgysylltu ar gyfer Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol VAWDASV ac mae'n rhan ganolog o'r gwaith o ddylunio a chyflwyno ymgyrchoedd a negeseuon cyhoeddus sy'n mynd i'r afael â cham-drin domestig a thrais rhywiol.

Mae gwaith penodol a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:

- Cais llwyddiannus trwy Swyddfa'r Comisiynydd am £200,000 o Grant Y Weinyddiaeth Cyfiawnder Y Swyddfa Gartref i helpu chwe sefydliad lleol sy'n rhoi cymorth i ddioddefwyr cam-drin domestig a thrais rhywiol gyda chostau ychwanegol o ganlyniad i'r pandemig Covid-19 – [Cyllid cam-drin domestig wedi ei gymeradwyo ar gyfer Gwent | Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd Gwent \(pcc.police.uk\)](#).
- Gweithio gyda Heddlu Gwent, Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol VAWDASV a Llywodraeth Cymru i lansio gwasanaethau i bobl yng Ngwent sydd wedi cyflawni cam-drin domestig neu sy'n pryderu am y ffordd mae eu hymddygiad yn effeithio ar eu partneriaid neu eu teuluoedd – [Gwasanaethau arbenigol ar gael i bobl sy'n niweidio eraill trwy gam-drin domestig | Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd Gwent \(pcc.police.uk\)](#).
- Ariannu swydd Cyd-gysylltydd Ymgysylltu â Goroeswyr yn ein canolfan dioddefwyr, Connect Gwent. Y cyntaf o'i math yng Nghymru ac a grëwyd yn dilyn argymhelliad gan Swyddfa'r Comisiynydd, pwrpas y swydd yw sefydlu fframwaith cynaliadwy ar gyfer ymgysylltu â goroeswyr lle gall pobl sydd wedi goroesi cam-drin domestig a thrais rhywiol rannu eu profiadau bywyd.
- Casgliad Adolygiad Beirniadol Swyddfa'r Comisiynydd o Ymdrin â Threisio yng Ngwent, i helpu i feithrin gwell dealltwriaeth o dreisio yng Ngwent ac, yn ei dro, nodi'r heriau a'r rhwystrau sy'n effeithio ar ymateb Heddlu Gwent. Cyflwynwyd yr adroddiad i Heddlu Gwent ac fe'i defnyddiwyd i lywio'r Cynllun Gweithredu Treisio a Throseddau Rhywiol Difrifol lleol.
- Gwneud sylw o Ddiwrnod Ymwybyddiaeth Cam-drin Pobl Hŷn, gan ganolbwyntio ar y broblem gynyddol o gam-drin pobl hŷn - [Ydych chi'n adnabod arwyddion cam-drin pobl hŷn? | Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd Gwent \(pcc.police.uk\)](#).
- Arwain a chyfrannu at Her149# Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol VAWDASV i nodi Diwrnod Rhyngwladol Dileu Trais yn erbyn Menywod y Cenhedloedd Unedig. Cafodd unigolion a sefydliadau eu hannog i gymryd rhan a phostio eu llwyddiannau ar-lein. Roedd yr heriau'n canolbwyntio ar y rhif 149 (nifer y menywod a fu farw oherwydd trais gan ddynion yn erbyn menywod yn ystod 2018) – [Cymunedau'n trechu #Her149 ar gyfer Diwrnod Rhuban Gwyn | Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd Gwent \(pcc.police.uk\)](#).



Ym mis Mawrth 2021, daeth problem trais gan ddynion yn erbyn merched yn fwy amlwg gyda diflaniad trasig a llofruddiaeth dybiedig (ar y pryd) Sarah Everard yn Llundain. Arweiniodd y digwyddiad hwn at gwestiynau difrifol am gamdriniaeth ar sail rhywedd ac aflonyddu rhywiol ar fenywod. Mewn datganiad heb flewyn ar dafod, condemniodd y Comisiynydd ymddygiad tramgwyddwyr sy'n dewis targedu menywod yn y ffordd hon ac anogodd menywod oedd yn dioddef neu unrhyw un oedd yn teimlo'n agored i niwed neu'n ofnus i riportio digwyddiadau naill ai wrth Heddlu Gwent neu wrth ein gwasanaethau cymorth arbenigol. Er ei fod y tu hwnt i gyfnod yr adroddiad hwn, mae'n bwysig cydnabod camddefnydd dychrynlyd y tramgwyddwr o swydd ac ymddiriedaeth, a'r effaith mae hyn wedi ei chael ar hyder y cyhoedd yn yr heddlu. Mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl wedi ymroi i sicrhau prosesau fetio effeithiol, ynghyd â sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau camymddwyn priodol ar waith ar gyfer Heddlu Gwent i helpu i sicrhau nad yw camddefnyddio swydd fel hyn yn digwydd yn y dyfodol.

Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom weithio'n agos gyda chyfiawnder troseddol ac asiantaethau allweddol eraill i fonitro effaith y pandemig ar ein gwasanaethau camdrin domestig a thrais rhywiol a phrosesau a chanlyniadau cyfiawnder troseddol i ddiodeffwyr. Y Comisiynydd yw cadeirydd Bwrdd Strategaeth Cyfiawnder Troseddol Gwent, sy'n ganolog i'r system cyfiawnder troseddol yng Ngwent – [Bwrdd Cyfiawnder Troseddol | Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd Gwent \(pcc.police.uk\)](#). Gweithiodd partneriaid Bwrdd Strategaeth Cyfiawnder Troseddol Gwent gyda'i gilydd i ganfod, monitro a datrys amrywiaeth o heriau o ran cyfyngiadau ar wasanaethau cymorth, darpariaethau llysoedd ac amserlenni gwrandawiadau. Er bod y sefyllfa o ran y llysoedd wedi gwella'n sylweddol erbyn diwedd y flwyddyn, byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar sicrhau gwasanaethau cynaliadwy ac effeithiol i rai o'n diodeffwyr mwyaf agored i niwed.

Ar hyn o bryd mae'r Comisiynydd yn cyfrannu arian tuag at wasanaethau cymorth Cynghorydd Annibynnol ar Drais Domestig yng Ngwent. Rhoddwyd camau ar waith yn ystod 2020/21 i fonitro gwybodaeth defnyddwyr gwasanaeth yn well er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir yn briodol ac yn cynnwys pob cymuned. Yn ystod y flwyddyn, cofnododd y gwasanaeth Cynghorydd Annibynnol ar Drais Domestig gynnydd 48.9% mewn atgyfeiriadau am gymorth o gymharu â 2019/20. Mae'r cymhlethdodau a'r lefelau uwch o drais a chamau gorfodaethol gan

dramgwyddwyr wedi cael eu cydnabod gan bob Cynghorydd Annibynnol ar Drais Domestig yn ystod y pandemig.

Gwasanaethau Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig	2019/20	2020/21
<i>Rhyw: Benyw</i>	96.2%	93.8%
<i>Gwryw</i>	3.8%	5.4%
<i>Anneuaidd</i>	-	0.0%
<i>Oedran: 17 ac iau</i>	3.0%	2.2%
<i>18 i 50</i>	80.3%	-
<i>18 i 54</i>	-	89.3%
<i>51 a hŷn</i>	9.2%	-
<i>55 a hŷn</i>	-	7.5%
<i>Cyfeiriadedd Rhywiol: LHDT+</i>	-	<0.1%
<i>Cefndir Ethnig Leiafrifol Anabled</i>	-	3.2%
	-	1.2%

Mae'r Comisiynydd wedi parhau i fuddsoddi bron i £300,000 y flwyddyn mewn gwasanaethau lleol arbenigol i ddiodefwyr cam-drin domestig a thrais rhywiol. Yn ogystal, roeddem yn falch o dderbyn £63,000 arall gan Lywodraeth y DU i roi cymorth i ddiodefwyr treisio, trais rhywiol a cham-drin domestig yn sgil y cynnydd sylweddol yn yr achosion a gafodd eu riportio yn ystod y pandemig. Yn ystod 2020/21 cofnododd y gwasanaethau hyn gynnydd 45.3% yn nifer cyffredinol y diodefwyr a oedd yn ceisio cymorth o gymharu â 2019/20.

Gwasanaethau Cam-drin / Trais Rhywiol	2019/20	2020/21
<i>Rhyw: Benyw</i>	85.5%	75.6%
<i>Gwryw</i>	14.4%	15.8%
<i>Anneuaidd</i>	<0.1%	0.3%
<i>Oedran: 17 ac iau</i>	24.1%	23.5%
<i>18 i 54</i>	70.8%	71.5%
<i>55 a hŷn</i>	5.0%	4.7%
<i>Cyfeiriadedd Rhywiol: LHDT+</i>	11.4%	7.9%
<i>Cefndir Ethnig Leiafrifol Anabled</i>	10.7%	2.4%
	17.4%	9.2%

Er ein bod yn croesawu'r cynnydd yn nifer y bobl sy'n gallu mynd at wasanaethau cam-drin domestig a thrais rhywiol, rydym yn cydnabod yr her sylweddol wrth geisio darparu cymorth effeithiol ac amserol i bobl agored i niwed yn ystod y pandemig. Rydym yn sylweddoli bod y canlyniad cadarnhaol hwn yn dangos mwy o hyder gan y cyhoedd i ymgymryd â chymorth. Mae hyn o ganlyniad i'n gwaith parhaol yn canolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau effeithiol ac ymgysylltu a chodi ymwybyddiaeth er mwyn annog pobl i riportio. Bydd ein gwaith yn parhau i gydnabod bod y problemau hyn yn ymwneud â rhywedd a bod diffyg riportio yn digwydd o hyd ar draws pob rhywedd. Mae croestoriadedd y nodweddion gwarchoddedig fel hil neu ethnigrwydd, ac anabled yn effeithio ymhellach ar hyn.

Yn ogystal, mae'r ganolfan dioddefwyr amlasiantaeth, Connect Gwent, yn cynnig amrywiaeth eang o gymorth, y gellir mynd ato heb riportio trosedd i'r heddlu. Yn ystod 2020/21 gwnaed rhyw 30,000 o atgyfeiriadau i Connect Gwent, sy'n dal i gael ei ariannu gan Swyddfa'r Comisiynydd. Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom barhau i fonitro sut mae pobl yn mynd at ein gwasanaethau i ddioddefwr. Un o'n heriau mwyaf yw'r nifer uchel o atebion "Heb ei ddatgan" i gwestiynau am ethnigrwydd, cyfeiriadedd rhywiol ac anabledd. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd i ni bennu'n gywir pwy sy'n llwyddo i fynd at wasanaethau cymorth ac adnabod cyfleoedd i wella ein gwasanaethau ymhellach. Byddwn yn parhau i weithio gyda Connect Gwent i wella'r ffordd mae gwybodaeth dioddefwyr yn cael ei chofnodi er mwyn hwyluso gwelliannau i hygyrchedd ac ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r gwasanaeth a ddarperir gan y ganolfan.

Cefnogi a Diogelu Plant a Phobl Ifanc

Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom gomisiynu gwasanaeth Dioddefwyr a Goroeswyr Ifanc Gwent, darpariaeth arbenigol sy'n cefnogi plant a phobl ifanc sy'n dioddef neu'n dyst i drosedd neu ymddygiad gwrthgymdeithasol. Yn ogystal, mae llawer o rieni, gofalwyr a gwarcheidwaid pobl ifanc yn cael cynnig cymorth ac yn ei dderbyn trwy'r gwasanaeth. Gwnaed wyth atgyfeiriad y mis, ar gyfartaledd, i wasanaeth Dioddefwyr a Goroeswyr Ifanc Gwent, gostyngiad bach ar y flwyddyn flaenorol, sy'n gysylltiedig â chau ysgolion a chyfyngiadau eraill COVID. Cefnogaeth emosiynol oedd y prif gymorth a ddarparwyd i bobl ifanc, a dywedodd 100% o'r defnyddwyr gwasanaeth ifanc a ymgymerodd â'r gwasanaeth bod eu gallu i 'ymdopi ac adfer' wedi gwella. Mae hwn yn ganlyniad cadarnhaol i'r gwasanaeth, sydd wedi parhau i ddatblygu a gwella trwy gydol ei flwyddyn gyntaf. Byddwn yn parhau i fonitro effeithiolrwydd ac effaith darpariaeth gwasanaeth yn ystod 2021/22, gan weithio gyda'r darparwr i gefnogi gwelliannau pellach i ddarpariaeth yn y dyfodol.

Ym mis Awst, roedd yn bleser gan y Comisiynydd gyflwyno 'Gwobr Partneriaeth Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd' i'r rhaglen Camau Cynnar Gyda'n Gilydd i gydnabod ei llwyddiant yn gweithio i wella ymateb yr heddlu a phartneriaid i brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod. Sefydlwyd tîm Heddlu Gwent, gan gynnwys aelod staff o Swyddfa'r Comisiynydd, yn 2018. Ers hynny, mae wedi hyfforddi dros 1,300 o swyddogion heddlu a 400 o staff o asiantaethau partner i adnabod arwyddion profiadau ingol a thrawmatig yn ystod plentyndod, er mwyn sicrhau bod plant a'u teuluoedd yn cael cynnig y cymorth cywir. Mae rhyw 900 o blant a 500 o deuluoedd wedi derbyn cymorth hefyd. Mae profiadau niweidiol yn ystod plentyndod yn cynnwys camdriniaeth gorfforol, emosiynol neu rywiol, a phrofiadau megis tyfu i fyny mewn cartref gyda thrais domestig, salwch meddwl, camddefnydd o alcohol neu gyffuriau a rhiant yn y carchar.

Roedd y rhaglen Camau Cynnar Gyda'n Gilydd hefyd yn gyfrifol am Ymgyrch Encompass, lle mae'r heddlu'n rhoi gwybod i ysgolion cyn i'r diwrnod ysgol ddechrau am unrhyw ddiwyddiadau cam-drin domestig y mae plant wedi bod yn rhan ohonynt neu'n dyst iddynt y noson cynt, gan helpu i sicrhau bod diogelu priodol ar waith. Yn ystod y flwyddyn, cafodd dros 5,000 o blant eu hadnabod o dan Ymgyrch Encompass, gostyngiad bach ar y flwyddyn flaenorol. Mae'r rhaglen yn dal i helpu i

ddiogelu plant rhag unrhyw niwed pellach yn llwyddiannus ac mae hefyd wedi elwa ar swydd Uwch Ymarferydd Diogelu newydd yn Ystafell Gyswllt a Rheoli Heddlu Gwent. Dyma'r swydd gyntaf o'i math yng Nghymru ac mae'n monitro digwyddiadau byw yn rhagweithiol er mwyn rhoi cyngor, arweiniad a chefnogaeth diogelu i swyddogion rheng flaen.

B. Trosedd Casineb ac Aflonyddu Cysylltiedig ag Anabledd

Rydym yn cydnabod bod tueddiad o hyd i beidio â riportio troseddau casineb, yn arbennig gan fod dioddefwyr yn debygol o fod yn dod o gymunedau neu grwpiau nad oes ganddynt hyder yn yr heddlu. Mae'r Comisiynydd yn cefnogi amcan strategol Heddlu Gwent i gynyddu nifer y troseddau casineb sy'n cael eu riportio gan neu ar ran dioddefwyr.

Eleni rydym wedi gweld gostyngiad 0.8% yn nifer y troseddau casineb a gofnodwyd yng Ngwent, tuedd sydd i'w gweld mewn ardaloedd plismona eraill ar draws y DU, a all awgrymu rhwystrau i riportio yn ystod y pandemig. Mae'r tabl canlynol yn cymharu troseddau casineb a riportwyd yn ôl categori dros y pedair blynedd diwethaf. Mae troseddau cysylltiedig â hil yn dal i gyfrif am y rhan fwyaf o'r hysbysiadau a dderbyniwyd ac, ynghyd â throseddau casineb trawsffobig, dyma'r unig gategori lle bu cynnydd mewn riportio yn ystod y flwyddyn.

Trosedd casineb	2017/18	2018/19	2019/20	2020/21
<i>Hiliol</i>	419	511	456	474
<i>Homoffobig</i>	153	160	161	145
<i>Anabledd</i>	93	118	112	88
<i>Crefyddol</i>	13	15	7	7
<i>Trawsffobig</i>	10	17	9	25
Cyfanswm	688	812	745	739

Yn ystod cyfnod cynnar y cyfyngiadau symud, gwelsom gynnydd yn genedlaethol mewn digwyddiadau casineb wedi eu hanelu at gymunedau De-ddwyrain Asiaidd. Yn ogystal, mae'n bosibl bod pobl yn aros yn eu cartrefi'n ddiogel wedi cyfrannu at nifer y digwyddiadau a brofwyd gan unigolion gyda nodweddion penodol. Er bod y rhifau a gofnodwyd yn is na rhifau yn y blynyddoedd blaenorol, mae'n galonogol bod y rhai a oedd yn dioddef troseddau casineb yn dal yn hyderus i riportio eu profiadau, er gwaethaf lleihad sylweddol mewn cyswllt wyneb yn wyneb gan wasanaethau a gyda gwasanaethau.

Cafwyd cynnydd 44.8% yn nifer y troseddau a hwylusir gan ddulliau seiber gydag elfen o gasineb a gofnodwyd yn ystod y flwyddyn, a all fod yn adlewyrchiad o'r cynnydd cyffredinol yn y defnydd o dechnoleg ddigidol a gwasanaethau rhithiol yn ystod y pandemig. Mae troseddau a hwylusir gan ddulliau seiber yn droseddau traddodiadol y gellir cynyddu eu graddfa neu eu cwmpas trwy ddefnyddio cyfrifiaduron, rhwydweithiau cyfrifiadur neu ffurfiau eraill ar dechnoleg (megis twyll a hwylusir gan ddulliau seiber, dwyn data a chamdriniaeth ar-lein). Cynhaliwyd ymgyrchoedd cyfryngau cymdeithasol i annog pobl i riportio yn ystod y cyfnod hwn

ac mae'n bosibl bod gallu riportio trwy gyfrwng Desg Cyfryngau Cymdeithasol Heddlu Gwent wedi cyfrannu at y cynnydd mewn achosion o gofnodi.

**Trosedd
Casineb a
Hwylusir gan
Ddulliau**

Seiber	2017/18	2018/19	2019/20	2020/21
<i>Hiliol</i>	13	21	26	43
<i>Homoffobig</i>	6	5	17	17
<i>Anabledd</i>	2	3	10	12
<i>Crefyddol</i>	0	4	0	1
<i>Trawsffobig</i>	0	2	2	7
Cyfanswm	21	35	56	80

Yn neilltuol, mae 47% o'r holl droseddau casineb a hwylusir gan ddulliau seiber yn gysylltiedig â phobl dan 35 oed. Mae hyn yn adlewyrchu troseddau a hwylusir gan ddulliau seiber yn fwy cyffredinol, lle mae grwpiau oedran iau yn dangos mwy o ddigwyddiadau oherwydd eu defnydd cynyddol o gyfryngau cymdeithasol a mwy o bresenoldeb ar-lein.

Trwy gydol y flwyddyn, mae'r Comisiynydd a Swyddfa'r Comisiynydd wedi defnyddio cyfryngau cymdeithasol a thraddodiadol i ymateb i ddigwyddiadau, cyhoeddi negeseuon i dawelu meddwl ac annog pobl i riportio. Yn ystod Wythnos Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb 2020, siaradodd y Comisiynydd yn erbyn troseddau casineb gan annog pobl i riportio unrhyw ddigwyddiadau wrth Heddlu Gwent neu bartneriaid eraill – [Ni fydd unrhyw drosedd casineb yn cael ei goddef yng Ngwent | Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd Gwent \(pcc.police.uk\)](#).

Yn ystod 2020/21, cynyddodd nifer y bobl sydd wedi dioddef trosedd casineb fwy nag unwaith 29% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae hyn yn awgrymu bod pobl yn fwy tebygol o gysylltu â Heddlu Gwent eto os ydynt yn profi mwy o droseddau casineb. Mae Heddlu Gwent wedi cysylltu eu proses atgyfeirio troseddau casineb gyda meysydd eraill ar draws y llu hefyd, gan y gallai'r bregusrwydd sy'n aml yn effeithio ar ddiodefwyr troseddau casineb eu rhoi nhw mewn perygl o ffurfiau eraill ar gam-fanteisio a chamdriniaeth. Fodd bynnag, yn ystod y flwyddyn, roedd diodefwyr troseddau casineb yn llai bodlon ar y gwasanaeth a gawsant o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae graddfeydd boddhad diodefwyr yn hollbwysig yn ein helpu ni i wella sut rydym yn rhoi cymorth i ddiodefwyr. O fis Gorffennaf 2021, bydd yr Uned Gofal Dioddefwyr newydd, a ariennir gan y Comisiynydd, yn darparu cymorth ychwanegol a phwrpasol i bobl sydd wedi dioddef trosedd casineb fwy nag unwaith, gan gynnwys asesiad manwl o'u hanghenion. Rydym yn gobeithio y bydd y gwasanaeth ychwanegol hwn yn codi hyder pobl yn ein cymunedau i riportio trosedd a gwella boddhad y bobl sydd wedi cael cymorth gan ein gwasanaeth plismona.

Mae'r Fforwm Troseddau Casineb mewnol, y mae Swyddfa'r Comisiynydd yn bresennol ynddo, yn craffu ar berfformiad Heddlu Gwent yn y maes hwn. Yn y gorffennol rydym wedi cydnabod bod angen gwella arferion cofnodi er mwyn rhoi'r darlun mwyaf cywir o droseddau casineb ar sail crefydd, neu droseddau casineb yn erbyn cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr, sydd yn aml yn cael eu cofnodi fel troseddau casineb ar sail hil. Dylai'r gwaith sy'n cael ei wneud i wella arferion cofnodi

data helpu i wella ein dealltwriaeth o effaith y troseddau hyn ar gymunedau a allant fod yn amharod i riportio digwyddiadau oherwydd nad ydynt yn ymddiried yn yr heddlu neu oherwydd eu profiadau ehangach o wahaniaethu a rhagfarn gymdeithasol, er enghraifft. Rydym yn dal i ymwneud â phrosesau adolygu gwaith rheoli achosion troseddau casineb Heddlu Gwent sydd wedi parhau i ddigwydd yn rhithiol yn ystod 2020/21. Mae unrhyw beth a ddysgir yn ystod y sesiynau hyn yn cael ei hysbysu i'r cyfarfod mewnol perthnasol yn rhan o broses gwella parhaus.

Yn allanol, mae Swyddfa'r Comisiynydd yn aelod o Fwrdd Casineb a Thensiynau Cymunedol Llywodraeth Cymru (Bwrdd Cyfiawnder Troseddol ar gyfer Troseddau Casineb Cymru gynt). Mae'r Bwrdd hwn yn rhoi goruchwyliaeth strategol dros faterion allweddol ac yn ein galluogi ni i ddylanwadu ar ymatebion Cymru gyfan a allai effeithio ar sut rydym yn cefnogi ein cymunedau lleol. Yn ogystal, mae'r Bwrdd yn cyfrannu at ddatblygiad strategaethau perthnasol Llywodraeth Cymru. Yn ystod y flwyddyn, aeth y bwrdd ati'n benodol i fonitro effaith COVID-19 a mudiad Mae Bywydau Du o Bwys ar densiynau cymunedol a gweithiodd i wella canlyniadau i ddiodefwyr troseddau casineb ledled Cymru.

Mae'r Bwrdd Casineb a Thensiynau Cymunedol yn dal i esblygu er mwyn ymateb i'r newidiadau mewn cymunedau yng Nghymru. Byddwn yn parhau i weithio gyda'r Bwrdd i ganolbwyntio ar faterion megis:

- Cyfraddau erlyn troseddau casineb
- Tensiynau yn y gymuned
- Cyfraniadau effeithiol tuag at waith ymgysylltu ynghylch gwasanaethau i ddiodefwyr troseddau casineb
- Rhoi cymorth i ddiodefwyr i wella canlyniadau i holl ddiodefwyr troseddau casineb yn lleol a ledled Cymru
- Dylanwad cyson y mudiad Mae Bywydau Du o Bwys ar ein hagweddau tuag at weithio gyda chymunedau.

Gwnaethom gymryd rhan ym Mhanel Craffu ar Droseddau Casineb Gwasanaeth Erlyn y Goron hefyd, sy'n adolygu'r ffordd y mae'r heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron yn ymdrin ag achosion troseddau casineb. Nodwyd nifer o argymhellion ar gyfer gwella a hysbyswyd Heddlu Gwent amdanynt er mwyn iddynt eu rhoi ar waith. Bydd y meysydd hyn yn cael eu monitro trwy gyfrwng y Fforwm Mewnol ar gyfer Troseddau Casineb.

C. Ymyrraeth ac Atal Cynnar

Rydym wedi parhau i weithio gyda phartneriaid i gefnogi ymyrraeth gynnar ac ymgyrchoedd atal ledled ein cymunedau. Rhan annatod o'r gwaith hwn yw gwella ein dealltwriaeth o bwy sy'n derbyn cymorth, pa gymorth sydd ei angen, a sut caiff ei ddarparu.

Mae'r Comisiynydd yn dal i fuddsoddi yn Null System Gyfan y Cynllun Braenaru i Fenywod, a'r Cynllun Dargyfeirio 18 i 25, sy'n canfod unigolion addas ac yn rhoi cyfle iddynt gymryd rhan mewn rhaglenni i'w cefnogi a'u dargyfeirio oddi wrth ymddygiad troseddol – [Dirprwy Weinidog yn canmol gwasanaeth sy'n trawsnewid bywydau](#)

[troseddwyr benywaidd | Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd Gwent \(pcc.police.uk\)](https://www.pcc.police.uk).

Mae'r rhaglen yn rhan o'n hymrwymiad i gefnogi Glasbrint ar gyfer Troseddwyr Benywaidd Llywodraeth Cymru. Yn ystod blwyddyn yr adroddiad hwn bu cynnydd yn yr atgyfeiriadau i gael cymorth yn y ddau wasanaeth, er gwaethaf yr heriau a gyflwynwyd gan y pandemig. Roedd llawer o atgyfeiriadau at y cynllun Dull System Gyfan yn gysylltiedig â throseddau ymosod, gan gynnwys ymosodiadau domestig; o ran y Cynllun 18 i 25, roedd mwy yn gysylltiedig â throseddau'n ymwneud â chyffuriau, ac yna troseddau ymosod.

Yn ystod y flwyddyn, cafodd 358 o fenywod eu hatgyfeirio i gael cymorth yn rhan o'r Dull System Gyfan. Roedd y rhan fwyaf o atgyfeiriadau o ddalfa'r heddlu, ynghyd ag atgyfeiriadau eraill gan Wasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Gwent. Mae hwn yn ganlyniad cadarnhaol iawn i'r gwasanaeth wrth iddo barhau i gynnig cymorth ac ymgysylltu er gwaethaf cyfyngiadau COVID, gan helpu menywod i wrthsefyll effaith profiadau niweidiol yn ystod plentyndod ar eu bywydau eu hunain a'i gwneud yn llai tebygol bod eu plant yn dioddef trawma.

Mae'r Gwasanaeth Ymyrraeth Gynnar i Oedolion Ifanc 18-25 oed yn cyd-fynd â Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuentid Llywodraeth Cymru. Bwriad y gwasanaeth yw atal pobl ifanc rhag mynd i mewn i'r system cyfiawnder troseddol, lleihau eu cysylltiad â'r system a manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd dargyfeirio er mwyn eu cefnogi nhw i arwain bywydau heb drosedd. Mae'r grŵp oedran hwn yn cynrychioli'r garfan fwyaf o bobl sy'n ymwneud â Heddlu Gwent. Mae'r Gwasanaeth Ymyrraeth Gynnar yn gyfle gwych i wneud gwahaniaeth sylweddol i fywydau nifer o'r unigolion hyn, gan osgoi'r rhwystrau mae cofnod troseddol yn eu creu.

Derbyniodd 207 o bobl ifanc ymyrraeth a chymorth trwy'r cynllun yn ystod y flwyddyn. Eto, dyma ganlyniad sylweddol i'r rhaglen wrth iddi barhau i gefnogi oedolion ifanc er gwaethaf y pandemig.

Cafodd iechyd meddwl ei grybwyll fel un o brif anghenion unigolion yn y ddau gynllun. Ymysg anghenion eraill roedd llety (Dull System Gyfan), camddefnyddio alcohol a sylweddau, ac addysg, cyflogaeth a hyfforddiant. Caiff unigolion eu hatgyfeirio at wasanaethau allanol os nad oes cymorth ar gael yn uniongyrchol gan y darparwr gwasanaeth a gomisiynwyd.

Argymhellwyd yn flaenorol y dylai gwybodaeth perfformiad ar gyfer y cynlluniau fonitro ethnigrwydd cyfranwyr ar y lleiaf. Byddai hyn yn helpu i sicrhau bod cyfleoedd dargyfeirio'n cael eu cynnig yn deg i'r rhai sy'n bodloni'r meini prawf atgyfeirio. Mae gwaith monitro ethnigrwydd yn cael ei gynnwys mewn Adroddiadau Rheoli Contractau yn awr, a ddarperir gan Swyddfa'r Comisiynydd, a byddwn yn defnyddio'r wybodaeth hon wrth adolygu'r cynlluniau i nodi unrhyw ddiffyg o ran darpariaeth neu fynediad priodol. Rydym yn dal i weithio gyda'n darparwyr gwasanaeth i sicrhau bod cyfleoedd i fynd at gynlluniau dargyfeirio yn gynhwysol (yn ddarostyngedig i amodau'n ymwneud â throseddau), yn darparu canlyniadau cadarnhaol ac yn galluogi dealltwriaeth o wneuthuriad demograffig unigolion a atgyfeiriwyd at y Cynlluniau.

Mae'r Comisiynydd hefyd wedi parhau i ariannu Prosiect Ieuentid Cymunedol - Casnewydd (Prosiect Ieuentid Maendy gynt), sy'n cael ei redeg o Dŷ Cymunedol

Maendy ar Heol Eton yng Nghasnewydd. Ariannwyd y prosiect yn wreiddiol yn 2019/20 ac mae wedi bod yn llwyddiannus yn sicrhau cyllid gan Gronfa Gymunedol Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd am dair blynedd arall. Mae'r arian hwn yn galluogi gweithwyr ieuenctid i ddarparu prosiectau addysgiadol a dargyfeiriol i blant a phobl ifanc, ynghyd â gweithgareddau cymorth eraill. Mae'r cymorth a'r gweithgareddau sy'n cael eu cynnig gan y Prosiect Ieuenctid Cymunedol yn helpu i gadw rhyw 75 o bobl ifanc oddi wrth drosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ystod y gwyliau ac ar ôl ysgol.

D. Cam-fanteisio'n Droseddol ar Blant a Phobl Eraill Agored i Niwed

Rydym wedi parhau i gefnogi Heddlu Gwent a phartneriaid i ddarparu amrywiaeth o fentrau ymyrraeth ac atal sy'n targedu problemau penodol yn ein cymunedau. Mae'r rhain yn cynnwys trosedd difrifol a threfnedig fel cam-fanteisio'n rhywiol ar blant, dosbarthu cyffuriau a throseddau cysylltiedig, a chaethwasiaeth fodern a masnachu pobl.

Mae'r cynnydd yn y defnydd o dechnoleg yn ystod y cyfyngiadau symud wedi amlygu pwysigrwydd cadw pobl yn ddiogel ar-lein. Trwy gydol y flwyddyn, gwnaethom rannu gwybodaeth am ddiogelwch gyda'n partneriaid allweddol a gweithio gyda phobl ifanc i helpu i fynd i'r afael â cham-fanteisio'n rhywiol ar blant. Fel ymateb i'r cynnydd yn nifer yr hysbysadau am blant yn rhannu delweddau anwedus ar-lein, gwnaethom weithio gyda Heddlu Gwent i lansio ein hymgyrch ar y cyd 'STOPIO. SIARAD. AMDDIFFYN', i annog rhieni a gofalwyr i stopio'r hyn maen nhw'n ei wneud; siarad â'u plant ynglŷn â chadw'n ddiogel ar-lein; a'u hamddiffyn nhw rhag niwed - [Stopio - Siarad - Amddiffyn | Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd Gwent \(pcc.heddlu\)](#).

Yn rhan o'n hymrwymiad i fynd i'r afael â throseddau difrifol a threfnedig, rydym wedi datblygu a helpu i ddarparu nifer o ymgyrchoedd gyda'r nod o gefnogi plant a phobl ifanc yn ein cymunedau. Er enghraifft, mae Swyddfa'r Comisiynydd a'r Swyddfa Gartref yn cyd-ariannu gwasanaeth Fearless Crimestoppers. Ers mis Ionawr 2019, mae tîm Fearless wedi darparu sesiynau ar droseddau cyllyll, cam-fanteisio ar blant a symud cyffuriau i dros 14,000 o bobl ifanc. Caiff sesiynau eu cynllunio i roi'r addysg a'r hyder i bobl ifanc adnabod y problemau hyn ymysg eu grwpiau o ffrindiau a chymunedau, a hefyd i roi'r wybodaeth a'r hyder iddynt eu riportio. Darparwyd hyfforddiant ar adnabod arwyddion troseddau trefnedig i dros 230 o weithwyr proffesiynol, rhieni a gofalwyr hefyd - [Astudiaeth achos: Fearless | Gwent Police and Crime Commissioner \(pcc.police.uk\)](#).

Mae Swyddfa'r Comisiynydd wedi comisiynu Barnardos Cymru i weithio mewn ysgolion uwchradd dethol yng Ngwent i ganfod pobl ifanc sydd mewn perygl o ddechrau ymwneud â throseddau difrifol a threfnedig. Mae prosiect Divert yn canfod pobl ifanc agored i niwed trwy ddefnyddio cyfres o ddangosyddion i ganiatáu i weithwyr cymorth weithio gyda'r bobl ifanc a'u teuluoedd i roi sylw i achosion craidd yr ymddygiad – [Astudiaeth achos: Barnardos Cymru - Divert | Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd Gwent \(pcc.police.uk\)](#).

Rydym yn croesawu canlyniadau cadarnhaol y prosiectau hyn a byddwn yn parhau i weithio gyda Heddlu Gwent a'n partneriaid i ddatblygu ein dulliau i fynd i'r afael â'r

problemau hyn ymhellach. Mae rhagor o wybodaeth am y rhain a phrosiectau eraill ar gael ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd – [Ystafell Newyddion | Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd Gwent \(pcc.police.uk\)](#).

Mae plismona yng Ngwent yn parhau i ddangos ymrwymiad clir i fynd i'r afael â chaethwasiaeth fodern a masnachu pobl. Mae'r Comisiynydd yn dal i arwain comisiynwyr heddlu a throsedd Cymru ar gaethwasiaeth fodern ac mae wedi cynrychioli'r gwaith a wnaed yng Ngwent ar lefel ranbarthol a chenedlaethol, gan gynnwys Grŵp Arweinyddiaeth Gwrth-gaethwasiaeth Cymru Gyfan. Mae Swyddfa'r Comisiynydd wedi ariannu'r prosiect Sanctuary sy'n rhoi cymorth a chyngor i ffoaduriaid a cheiswyr lloches, y mae llawer ohonynt wedi dioddef masnachu a cham-fanteisio troseddol. Mae'r gwahaniaeth mae'r prosiect hwn yn ei wneud i fywydau'r bobl fregus hyn, sy'n cynnwys plant ifanc, yn hollbwysig yn eu helpu nhw i adfer ar ôl eu profiadau a byw bywyd rhydd rhag cam-fanteisio.

Er bod cyfyngiadau COVID wedi cyfrannu at ostyngiad 26.2% yn nifer y troseddau caethwasiaeth fodern a masnachu pobl a gofnodwyd yn ystod y flwyddyn (cwymp o 42 achos yn 2019/20 i 31 achos yn 2020/21), mae'n rhesymol tybio y bydd hyn yn cynyddu wrth i'r economi barhau i ail agor yn ystod 2021/22. Byddwn yn parhau i gefnogi gwaith Heddlu Gwent gyda phartneriaid i ganfod a rhoi cymorth i ddioddefwyr a dwyn troseddwyd o flaen eu gwell.

E. Troseddau yn erbyn pobl hŷn

Rydym yn dal i weithio gyda Heddlu Gwent a'n partneriaid i adnabod a deall yn well y troseddau sy'n effeithio ar ein dinasyddion hŷn, a gwella'r gwasanaethau a ddarperir i'r rhai sydd wedi cael eu heffeithio.

Yn ystod y flwyddyn gwnaethom gydweithio â Thîm Rhanbarthol Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) Gwent a Heddlu Gwent i gynnal ymgyrch ar y cyd er mwyn tynnu sylw at drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ac annog pobl sy'n dioddef i ofyn am gymorth. Roedd yr ymgyrch 'Peidiwch â Dioddef yn Dawel' yn annog pobl i riportio drwy gyfrwng llinell gymorth Byw Heb Ofn ac yn cyfeirio pobl at wefan Diogelu Gwent i gael cyngor a gwybodaeth. Cyfrannodd 30 o oroeswyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol at ei gynnwys a chymerodd rai ohonynt ran yn yr ymgyrch ei hun a oedd yn cynnwys gwaith hyrwyddo helaeth trwy gyfrwng poster, taflenni a chyfryngau cymdeithasol. Ein nod oedd cyrraedd pobl nad ydynt yn dilyn ein sianeli cyfryngau cymdeithasol. Cafodd y postiadau Instagram eu teilwra i dargedu pobl 35 oed ac iau yng Ngwent, ac roedd y postiadau Facebook yn targedu pobl 45+ oed. Gwnaed hyn yn dilyn dadansoddiad data gyda phartneriaid VAWDASV.

Rydym wedi gweithio gyda Heddlu Gwent i adolygu ac adfywio ein dull o weithio gyda phartneriaid trwy gyfrwng y cyfarfod Amddiffyn ein Pobl Hŷn Gyda'n Gilydd. Ar ôl bod yn segur am gyfnod, cynhaliwyd adolygiad llawn o'r Cylch Gwaith, aelodaeth a gofynion monitro data, yn ogystal ag ail frandio i sicrhau hunaniaeth gryfach er mwyn hyrwyddo'r gwaith partner a'r ymgyrchoedd oedd yn cael eu darparu. Roedd llawer o'r gwaith a wnaed gyda phartneriaid yn ystod y flwyddyn yn canolbwyntio ar

ail sefydlu'r prif feysydd rydym yn canolbwyntio arnynt, gan nodi cyfleoedd i rannu gwybodaeth a gofynion rhannu data.

Rydym yn dal i gefnogi Ymgyrch Signature i ganfod a chynorthwyo pobl agored i niwed a phobl hŷn sydd wedi dioddef twyll sydd yn teimlo'n arbennig o agored i gamdriniaeth neu gam-fanteisio ariannol. Mae'n darparu camau atal a chefnogaeth gyda'r bwriad o amddiffyn dioddefwyr rhag perygl o niwed pellach. Elfen bwysig o Ymgyrch Signature yw ei negeseuon a chyngor atal trosedd a gwaith gydag asiantaethau statudol a gwirfoddol i ysgogi newid. Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi darparu cyngor ac arweiniad ar gadw'n ddiogel ar-lein ac adnabod arwyddion twyll, gan gynnwys twyll rhamant.

Rydym wedi cydweithio gyda Heddlu Gwent a'n cyd wasanaethau brys i ddatblygu Cynllun Strapiau Arddwrn Dementia ar gyfer Gwent. Bydd y cynllun hwn yn gymorth i adnabod pobl â chyflwr sy'n gysylltiedig â Dementia ac sydd mewn perygl o fynd ar goll yn gynnar a'u dychwelyd at eu hanwyliaid. Yn seiliedig ar gynllun tebyg a gyflwynwyd yn ardal blismona Avon a Gwlad yr Haf, byddai cynllun Gwent ar gael i unrhyw un sydd wedi cofrestru gyda Phrotocol Herbert, neu y mae'r gwasanaethau Ambiwlans a Thŷn ac Achub wedi nodi eu bod yn agored i niwed. Disgwylir y bydd yn cael ei lansio yn 2021/22. Mae rhagor o wybodaeth am Brotocol Herbert ar gael ar wefan Heddlu Gwent - [Protocol Herbert | Heddlu Gwent](#).

Amcan Cydraddoldeb 2: Cyfreithlondeb a Thegwch

Sicrhau bod Heddlu Gwent a Swyddfa'r Comisiynydd yn cyflawni eu gweithgareddau mewn ffordd deg ac yn anwahaniaethol ac yn meithrin cysylltiadau cadarnhaol rhwng cymunedau a phlisma.


Mae'r amcan hwn yn canolbwyntio ar sicrhau bod ein holl weithgareddau plisma - yn arbennig gweithgareddau fel stopio a chwilio sy'n debygol o effeithio'n anghyfartal ar bobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig - yn destun craffu priodol, ein bod yn cymryd camau i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb wrth ddarparu ein gwasanaethau, a'n bod yn gwella'r ffordd rydym yn cyfathrebu â'r cyhoedd i wella ymddiriedaeth a hyder mewn plisma yng Ngwent.

A. Stopio a Chwilio a Defnyddio Grym

Mae stopio a chwilio a defnyddio grym yn dal i fod yn feysydd dadleuol. Cafodd digwyddiadau 2020 effaith ar y ffordd roedd y cyhoedd yn gweld plisma a chyfiawnder troseddol yn y DU, gan gynyddu tensiynau rhwng cymunedau a'r heddlu. Amlygodd ymddangosiad y mudiad Mae Bywydau Du o Bwys fwy o deimladau o ddiffyg ymddiriedaeth a diffyg hyder gan y gymuned yn y defnydd o bwerau'r heddlu a'r hyn y cyfeirir atynt yn aml fel 'tactegau gorfodol'. Pan fydd ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd mewn perygl gall yr heddlu gael eu hynysu rhag ffynonellau gwybodaeth hollbwysig gan fod diffyg hyder yn arwain at lai o gydweithrediad ac ymgysylltiad.

Mae stopio a chwilio a defnyddio grym yn agweddau ar weithgareddau gweithredol sy'n destun craffu rheolaidd a chyson gan Swyddfa'r Comisiynydd a Heddlu Gwent. Mae nifer o brosesau mewnol ac allanol ar waith i fonitro'r defnydd o bwerau'r heddlu yn lleol. Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi cefnogi Heddlu Gwent i ail-rymuso eu prosesau craffu ac atebolrwydd mewnol ac rydym yn parhau i roi cymorth iddynt, ac i'w herio, yn y maes hwn. Gan weithio gyda Heddlu Gwent, mae Swyddfa'r Comisiynydd yn sicrhau bod unrhyw broblemau a ganfyddir trwy'r prosesau hyn, neu unrhyw bryderon a leisir gan ein cymunedau, yn cael eu cydnabod ac yn derbyn sylw.

Mae Heddlu Gwent yn ymroddedig i fod yn agored a thryloyw o ran eu defnydd o stopio a chwilio, ac mae data ar gael ar eu gwefan – [Ystadegau a data | Heddlu Gwent](#). Mae hyn yn helpu i ddangos cyfreithlondeb trwy ddangos ein bod yn agored a thryloyw wrth ddefnyddio'r pwerau hyn. Yn unol â thuueddiadau cenedlaethol, mae nifer yr achosion o stopio a chwilio yng Ngwent wedi cynyddu yn ystod y tair blynedd diwethaf, gan godi o 2289 achos o stopio a chwilio pobl (cyfanswm o 2465 achos o stopio) yn 2018/19, i 4736 achos o stopio a chwilio pobl (cyfanswm o 5840 achos o stopio) yn 2020/21. Rydym yn cydnabod y bydd gwaith gorfodi cysylltiedig â'r cyfyngiadau symud cyntaf wedi cyfrannu at y penllanw nodedig ym mis Ebrill a mis Mai 2020.



Roedd cyfraddau anghydraddoldeb o ran hil yng Ngwent wedi cynyddu hefyd yn unol â nifer yr achosion o stopio a chwilio a gofnodwyd, ac yn 2019/20, roedd pobl Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol 5.2 gwaith yn fwy tebygol o gael eu stopio a chwilio na phobl Wyn yng Ngwent. Fodd bynnag, yn 2020/21, gostyngodd y gyfradd anghydraddoldeb ar gyfer Gwent i 3.9 gwaith.

Yn ôl data'r Swyddfa Gartref, yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben Mawrth 2020, roedd pobl Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol 4.1 gwaith yn fwy tebygol o gael eu stopio na phobl Wyn (mae data cenedlaethol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben Mawrth 2021 i fod i gael ei gyhoeddi ym mis Hydref 2021) - [Police powers and procedures England and Wales, year ending 31 March 2020 second edition \(publishing.service.gov.uk\)](#). Rydym yn croesawu'r gostyngiad hwn yn y gyfradd anghydraddoldeb o ran stopio a chwilio yng Ngwent y llynedd, gan gydnabod ei fod yn adlewyrchu ein hymdrechion o'r newydd i ganfod, deall a herio problemau anghydraddoldeb mewn arferion lleol.

Yn ystod y flwyddyn, parhaodd Heddlu Gwent i gynnal gweithgareddau gweithredol pwrpasol ledled yr ardal blismona. Mae argymhellion blaenorol o ganlyniad i waith

craffu Swyddfa'r Comisiynydd wedi cynnwys angen i Heddlu Gwent ddeall effaith gweithgareddau heddlu ar gymunedau lleol, a chanfod ac esbonio unrhyw weithgarwch anghydradd sydd wedi digwydd. Rydym yn falch bod hyn yn rhan allweddol o'r Bwrdd Craffu ar Bwerau Gorfodi mewnol (y Cyfarfod Tactegau Gweithredol gynt) yn awr, y mae Swyddfa'r Comisiynydd yn bresennol yn ei gyfarfodydd. Mae'r drafodaeth yn gyfle i herio unrhyw anghydraddoldeb gyda disgwyl y bydd yr achosion a'r canlyniad yn cael eu hesbonio'n foddhaol a'u deall yn llawn o fewn cyd-destun cymunedol.

Rydym yn parhau i weithio gyda Heddlu Gwent a phartneriaid i ymgysylltu â chymunedau ynghylch pam mae'r heddlu'n stopio a chwilio, a hawliau pobl os byddant yn cael eu stopio. Ym mis Rhagfyr 2020, gwnaethom gymryd rhan mewn digwyddiad lansio Manifesto Cymru Mae Bywydau Du o Bwys a ddangosodd mor gryf roedd pobl yn teimlo ynghylch stopio a chwilio yn ein cymunedau Du yng Nghymru. Mae sgysiau heriol fel y rhain yn hollbwysig os ydym am newid profiadau ein cymunedau lleiafrifol, ac rydym yn croesawu'r cyfle i gyfrannu at ddatblygu deialog fwy ystyrion. Mae Swyddfa'r Comisiynydd wedi datblygu cynllun ymgysylltu penodol ar gyfer cymunedau Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol a fydd yn cefnogi ein gwaith cysylltiedig â stopio a chwilio a byddwn yn parhau i rannu unrhyw wersi a ddysgwyd gyda Heddlu Gwent er mwyn i'r ddau sefydliad ddeall beth sydd angen ei newid.

Defnyddio grym

Mae defnyddio grym yn faes gweithredol sy'n destun mwy o graffu yn genedlaethol, ac mae digwyddiadau'r llynedd wedi peri mwy o bryder i gymunedau. Mae grym yn cynnwys Taser, gefynnau, chwistrell PAVA ac ati. Mae bwletin data blynyddol y Swyddfa Gartref yn rhoi gwybodaeth am ddefnyddio grym ledled y gwasanaeth heddlu yn y DU - [Police use of force statistics, England and Wales: April 2019 to March 2020 \(publishing.service.gov.uk\)](https://publishing.service.gov.uk). Fodd bynnag, nid yw'r ystadegau'n cynrychioli pob achos o ddefnyddio grym yn y 43 heddlu yng Nghymru a Lloegr ac ar hyn o bryd nid yw'n rhoi darlun cywir o'r effaith ar gymunedau ac unigolion agored i niwed.

Yn genedlaethol, ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben Mawrth 2020:

- Roedd 16% o ddigwyddiadau'n ymwneud â phobl Ddu, y gyfradd uchaf ar gyfer ethnigrwydd Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol
- Roedd 14% o ddigwyddiadau'n rhai lle'r oedd swyddogion yn credu bod anabledd iechyd meddwl yn ffactor
- Arweiniodd 76% o ddigwyddiadau at arést
- Defnyddiwyd Taser mewn 33% o ddigwyddiadau yn ymwneud â phobl o gefndir Du, Asiaidd neu ethnig leiafrifol, o gymharu â 63% yn ymwneud â phobl Wyn (mae defnyddio Taser yn cynnwys tynnu, lled-gylchu, dot coch, anelu a thanio)

Rydym wedi parhau i weithio gyda Heddlu Gwent i sicrhau pan fydd grym yn cael ei ddefnyddio, ei fod yn cael ei ddefnyddio yn deg, yn gymesur a bod cyfiawnhad dros ei ddefnyddio. Rydym wedi cefnogi Heddlu Gwent i wneud gwelliannau i'w prosesau mewnol ar gyfer craffu ar ddefnyddio grym trwy argymhellion a phresenoldeb

rheolaidd yng nghyfarfodydd y Bwrdd Craffu ar Bwerau Gorfodi. Byddwn yn parhau i gefnogi a herio Heddlu Gwent yn briodol i hwyluso gwaith monitro a goruchwyllo effeithiol ac i wella arferion y llu wrth ddefnyddio grym.

Un o'r heriau wrth fonitro data defnyddio grym yw bod manylion pobl sy'n cael profiad ohono'n cael eu cofnodi fel y'u canfyddir gan y swyddog, ac ni fyddant mor gywir â'r wybodaeth a gofnodir ar gyfer stopio a chwilio, a ddarperir gan yr unigolyn yn ystod y digwyddiad. At hynny, bydd nifer yr adroddiadau am ddefnyddio grym yn fwy na'r nifer o bobl sydd wedi cael profiad o ddefnyddio o rym. Mae'n ofynnol bod pob swyddog sy'n defnyddio grym yn ystod digwyddiad yn llenwi a chyflwyno ffurflen. Mae hyn yn golygu y gellir cyflwyno sawl ffurflen defnyddio grym ar gyfer un digwyddiad yn ymwneud ag un unigolyn.

Yn ystod y flwyddyn, yng Ngwent:

- Roedd 9.4% o ddigwyddiadau'n ymwneud â phobl o grwpiau Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol. Roedd 3.6% yn ymwneud â grwpiau Asiaidd, a 2.7% yn ymwneud â grwpiau Du
- Arweiniodd 74.2% o ddigwyddiadau at arést
- Defnyddiwyd Taser mewn 4.3% o ddigwyddiadau
- Cafodd 1.6% o unigolion eu cadw dan Adran 136 y Ddeddf Iechyd Meddwl.

Bydd data cenedlaethol defnyddio grym yn cael ei gyhoeddi gan y Swyddfa Gartref ym mis Hydref 2021, gan ein galluogi ni i wella dealltwriaeth o achosion o ddefnyddio grym ledled y DU, gan gynnwys cyfraddau anghydraddoldeb wrth ddefnyddio grym ar bobl o gymunedau ethnig leiafrifol. Bydd Heddlu Gwent a Swyddfa'r Comisiynydd yn defnyddio'r wybodaeth hon i gefnogi prosesau craffu ar ddefnyddio grym a gwelliannau, yn arbennig o ran monitro effeithiau ar nodweddion gwarchoddedig fel hil a phobl sy'n agored i niwed o ran iechyd meddwl neu anabledd.

Gwaith craffu Swyddfa'r Comisiynydd

Mae gan Swyddfa'r Comisiynydd broses hirsefydlog ar gyfer craffu cyhoeddus ar y defnyddio o stopio a chwilio a defnyddio grym yn lleol. Ym mis Medi 2017, cafodd y broses hon ei hehangu i gynnwys pob achos o ddefnyddio grym. Mae Swyddog Polisi Swyddfa'r Comisiynydd yn dal i gyd-gysylltu a hwyluso'r Panel Craffu ar Gyfreithlondeb, gyda chefnogaeth Heddlu Gwent. Daw'r aelodau o Grŵp Cynghori Annibynnol Gwent - aelodau o'r gymuned leol sy'n cynrychioli'r cefndiroedd amrywiol sy'n cyd-fynd â'r nodweddion gwarchoddedig.

Mae'r Panel Craffu ar Gyfreithlondeb yn cwrdd bob tri mis, ac mae'n craffu ar stopio a chwilio a defnyddio grym bob yn ail. Fel rhan o'r broses craffu, mae'r Panel Craffu yn gwneud y canlynol:

- Ystyried a thrafod data stopio a chwilio a defnyddio grym Heddlu Gwent
- Adolygu'r holl gofnodion stopio a chwilio Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol sydd ar gael ar gyfer y cyfnod craffu o chwe mis, a hap samplu gweddill y cofnodion
- Adolygu delweddau fideo camera corff o ddetholiad ar hap o ddigwyddiadau stopio a chwilio a defnyddio grym sydd ar gael (mae hyn yn cynnwys fideo yn

ymwneud â chwynion sydd wedi cael sylw gan Adran Safonau Proffesiynol yr heddlu).

Er mwyn cydymffurfio â'r cyfyngiadau COVID a gyflwynwyd ar ddechrau'r pandemig, cynhaliwyd cyfarfodydd y Panel Craffu ar Gyfreithlondeb yn rhithiol. Adolygwyd y Cylch Gwaith a chyflwynwyd proses hapsamplu ddiwygiedig ar gyfer adolygu cofnodion stopio a chwilio. Mae adroddiadau gyda dadansoddiad o sesiynau craffu ac unrhyw argymhellion dilynol er mwyn gwella, neu enghreifftiau o arfer da, yn cael eu cyflwyno i'r Comisiynydd ac i arweinydd Heddlu Gwent ar Dactegau Gweithredol. Caiff adroddiadau eu cyhoeddi ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd hefyd - [Craffu ar stopio a chwilio | Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd Gwent \(pcc.police.uk\)](https://pcc.police.uk) ac fe'u darperir ar gyfer y Grŵp Cyngori Annibynnol er mwyn iddo eu hystyried ac i roi sylw arnynt fel y bo'n briodol. Mae adroddiad crynodeb ar gyfer y flwyddyn ar y wefan hefyd.

Mae ein gallu i graffu'n annibynnol yn parhau i ddatblygu o dan y CCS newydd. Mae gwaith i gynyddu cynrychiolaeth pobl sy'n ymwneud â'n prosesau yn yr arfaeth ar gyfer 2021/22. Byddwn yn parhau i ymgysylltu ag Arolygiaeth Cwnstabiliaeth, Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi a chroesawu ei gwaith arsylwi parhaus ar y Panel Craffu ar Gyfreithlondeb wrth gefnogi trefniadau monitro stopio a chwilio a defnyddio grym Swyddfa'r Comisiynydd a Heddlu Gwent. Byddwn hefyd yn cefnogi cyfleoedd pellach i weithio gyda nhw i fynd i'r afael ag unrhyw broblemau anghydraddoldeb sy'n digwydd yn lleol. Bydd hyn yn ein galluogi ni i sicrhau bod ein hymateb i broblemau anghydraddoldeb yn briodol, yn dryloyw ac yn meithrin ymddiriedaeth a hyder yn y cymunedau sy'n cael eu heffeithio fwyaf.

B. Y Ddalfa

Mae blwyddyn yr adroddiad wedi gweld cynnydd mewn gwaith craffu ar y ddalfa a data ynglŷn â hil ac ethnigrwydd. Mae Heddlu Gwent wedi sefydlu Panel Craffu ar Anghydraddoldeb yn y Ddalfa sy'n cyfarfod bob tri mis i ddadansoddi a chraffu ar ddata o'r Adroddiad ar Gydraddoldeb, Tegwch a Chyfreithlondeb yn y Ddalfa. Mae'r adroddiad yn cyflwyno amrywiaeth o ddata, gan gynnwys chwiliadau diosg dillad, amser yn y ddalfa, gwarediadau, grym a ddefnyddiwyd yn y ddalfa a mathau o drosedd. Mae hyn yn ei gwneud yn haws i ni weld lle mae anghydraddoldeb wedi digwydd, esbonio pam mae wedi digwydd neu roi camau ar waith i fynd i'r afael ag ef. Mae'r tabl canlynol yn dangos ethnigrwydd pobl a fu yn nalfa'r heddlu yn ystod y tair blynedd diwethaf. Yn ystod 2020/21, roedd 8.7% o bobl a gymerwyd i'r ddalfa o gefndir Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, sy'n awgrymu anghydraddoldeb o ran nifer y bobl yn y ddalfa yng Ngwent.

<i>Ethnigrwydd Hunanddiffiniedig yn ôl Grŵp</i>	2018/19	2019/20	2020/21
<i>Gwyn</i>	89.0%	90.4%	90.5%
<i>Cymysg</i>	1.8%	1.6%	1.7%
<i>Asiaidd</i>	3.4%	2.6%	2.4%
<i>Du</i>	2.8%	2.9%	2.7%
<i>Arall</i>	1.1%	1.5%	1.8%
<i>Heb ei ddatgan</i>	2.0%	1.0%	0.8%

Cyfanswm yr Arestïadau	9357	9152	10673
------------------------	------	------	-------

Byddwn yn parhau i fonitro ymateb Heddlu Gwent i anghydraddoldeb yn y ddalfa, ac i weithio gyda phartneriaid i ddarparu ymyrraeth gynnar a mentrau dargyfeirio cynaliadwy, fel Cynllun Dargyfeirio'r Llwybr Braenaru i Fenywod.

Caiff cyfnodau cadw o dan Adran 136 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl eu monitro hefyd. Yn 2020/21 gwelwyd parhad yn y gyfradd isel o bobl a oedd yn cael eu cymryd i ddalfa'r heddlu fel man diogel. Mae hyn oherwydd gwaith parhaus y Tîm Brysbennu Iechyd Meddwl sy'n gweithio yn Ystafell Gyswllt a Rheoli'r Llu, sy'n gallu helpu i ddod o hyd i ddulliau ar wahân i gadwad yn y ddalfa dan Adran 136, fel trefnu apwyntiadau argyfwng neu gymorth iechyd meddwl brys. Cafodd y rhai a gymerwyd i ysbyty naill ai eu cymryd i ystafelloedd iechyd meddwl Adferiad, neu i'r adran damweiniau ac achosion brys am driniaeth.

<i>Man Diogel</i>	2018/19	2019/20	2020/21
<i>% yn y ddalfa</i>	4%	1.4%	2.0%
<i>% yn yr ysbyty</i>	96%	98.6%	98%

Rydym yn croesawu'r ffofws cyson ar y defnydd o'r ddalfa ar gyfer cadw pobl am resymau iechyd meddwl ac rydym yn cydnabod y trefniadau partneriaeth sydd ar waith sy'n parhau i gyfrannu at y canlyniad hwn.

Mae data ar gyfer yr holl blant a gedwir yn y ddalfa yn cael ei fonitro'n rheolaidd hefyd. Yn ystod y flwyddyn, cofnodwyd y niferoedd canlynol o blant yn y ddalfa:

Nifer y bobl dan 18 yn y ddalfa			
<i>Ethnigrwydd</i>	2018/19	2019/20	2020/21
<i>Hunanddiffiniedig</i>			
<i>Gwyn</i>	82.0%	84.6%	84.0%
<i>Cymysg</i>	5.0%	3.9%	3.3%
<i>Asiaidd</i>	4.4%	2.9%	2.7%
<i>Du</i>	5.3%	4.9%	4.5%
<i>Arall</i>	2.3%	2.3%	4.3%
<i>Heb ei ddatgan</i>	1.0%	1.3%	1.2%
Cyfanswm	664	611	583

Rydym yn parhau i weithio gyda Heddlu Gwent a'r Timau Troseddau Ieuencid yng Ngwent i sicrhau bod darpariaethau priodol ac effeithlon ar waith o ran trosglwyddo plant o'r ddalfa. Cyfarfod amlasiantaeth sy'n adolygu wrth edrych yn ôl ar yr holl blant a phobl ifanc sy'n cael eu harestio a'u cadw yn nalfa'r heddlu rhwng 11:59pm a 5:00am (ystyrir hyn yn gadw yn y ddalfa "dros nos") yw Panel Gwent ar gyfer Monitro

ac Adolygu'r Broses o Drosoglwyddo Plant o Ddalffa'r Heddlu. Darperir adroddiad cynnydd i Fwrdd Strategaeth Cyfiawnder Troseddol Gwent bob blwyddyn i'w ystyried a'i drafod, a chaiff argymhellion a chymorth ar gyfer gwelliannau eu nodi fel y bo'n briodol.

Rydym yn croesawu'r gostyngiad yn nifer cyffredinol y plant yn y ddalffa o gymharu â 2019/20 ac yn fodlon bod y trefniadau ar waith a'r oruchwyliaeth a ddarperir gan y Panel yn briodol er mwyn canfod a rhoi sylw i unrhyw feysydd y mae angen eu gwella. Byddwn yn parhau i adolygu dulliau partneriaeth o ymdrin â phlant yn y ddalffa a sicrhau bod unrhyw effeithiau anghydradd yn derbyn sylw.

Mae Swyddfa'r Comisiynydd yn parhau i gydgyssylltu Cynllun Ymwelwyr Annibynnol â Dalffeydd, gan ddefnyddio gwirfoddolwyr o'r gymuned i fynychu unedau'r ddalffa yn rheolaidd er mwyn adolygu ansawdd y gofal a ddarperir i bobl sy'n cael eu cadw ynddynt. Mae gwirfoddolwyr Ymwelwyr Annibynnol â Dalffeydd yn cael hyfforddiant rheolaidd, gan gynnwys hyfforddiant ar faterion cydraddoldeb ac amrywiaeth, a chyhoeddir cofnodion cyfarfodydd bob tri mis ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd er mwyn bod yn dryloyw ac i sicrhau'r cyhoedd bod y cynllun yn effeithiol – [Ymwelwyr Annibynnol â Dalffeydd | Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd Gwent \(pcc.police.uk\)](https://www.pcc.police.uk/).

Oherwydd cyfyngiadau COVID, ni chynhaliwyd unrhyw ymweliadau nes canol mis Mehefin pan sefydlwyd proses monitro ar y ffôn. Derbyniwyd diweddariadau wythnosol gan Brif Arolygydd y Ddalffa yn ystod y cyfnod hwn. Mae'r system monitro ar y ffôn yn sicrhau y gall ymwelwyr annibynnol â dalffeydd barhau i ymwneud â phobl yn y ddalffa. Er bod nifer y bobl a ddefnyddiodd y broses hon yn isel o gymharu ag ymweliadau wyneb yn wyneb, mae ymwelwyr annibynnol â dalffeydd yn siarad yn uniongyrchol â phobl sy'n cael eu cadw yn y ddalffa mewn ystafell breifat, gan sicrhau arfer annibynnol.

Bydd y broses hon yn parhau nes bydd cyfyngiadau ac asesiadau risg o blaid ymweld wyneb yn wyneb. Er nad yw'n ddelfrydol, mae monitro ar y ffôn wedi galluogi pobl i leisio pryderon na fyddent efallai wedi cael eu nodi yng nghofnodion gwirio'r ddalffa yn unig. Yn ystod 2020/21, gwnaed 65 o alwadau, a arweiniodd at:

- 13.7% o garcharorion yn y ddalffa yn ystod cyfnodau ymweld yn derbyn ymweliad gan yr Ymwelwyr Annibynnol â Dalffeydd
- 100% o'r materion a nodwyd gan Ymwelwyr Annibynnol â Dalffeydd yn cael sylw gan ringyll y ddalffa yn ystod yr ymweliad.

Cynhelir cyfarfod y ddalffa yn wythnosol er mwyn canfod unrhyw themâu neu achosion o bryder. Mae'r Tîm Hyfforddiant Diogelwch Swyddogion yn bresennol yn y cyfarfodydd wythnosol hefyd, i roi adborth i swyddogion o'r gwahanol adrannau sy'n dod â phobl i gael eu cadw yn y ddalffa.

Rydym yn dal yn ymroddedig i ddarparu Cynllun Ymwelwyr Annibynnol â Dalffeydd effeithiol sy'n meithrin hyder pobl yn y gymuned yn nalffa'r heddlu a byddwn yn dal i gefnogi ymwelwyr annibynnol â dalffeydd wrth iddynt gyflawni'r swydd hon.

C. Gwarediadau y tu allan i'r llys

Sefydlwyd Panel Craffu ar Warediadau y tu allan i'r Llys gan Heddlu Gwent i alluogi partneriaid o amrywiaeth o asiantaethau i adolygu a chraffu'n annibynnol ar ddeholiad o achosion anhysbys y mae'r heddlu wedi defnyddio gwarediadau y tu allan i'r llys i'w datrys. Aelod o staff Swyddfa'r Comisiynydd sy'n cadeirio'r Panel Craffu ar Warediadau y tu allan i'r Llys.

Defnyddir gwarediadau y tu allan i'r llys gan yr heddlu er mwyn ymdrin â throseddau llai difrifol ac achosion o droseddau am y tro cyntaf y gellir ymdrin â nhw'n well heb fynd i'r llys. Gellir defnyddio gwarediad y tu allan i'r llys mewn amgylchiadau cyfyngedig a dim ond pan fydd yr unigolyn dan amheuaeth yn derbyn cyfrifoldeb dros y drosedd. Mae'r dulliau a ddefnyddir i ymdrin ag unigolion dan amheuaeth yn y ffordd hon yn cynnwys dulliau adferol, datrysiadau cymunedol, rhybuddiadau amodol, rhybuddiadau syml, rhybuddion canabis, hysbysiadau cosb am anhrefn ac ymyraethau i bobl ifanc.

Nod y Panel yw penderfynu a oedd y dull gwaredu yn briodol, yn seiliedig ar adolygiad o'r wybodaeth neu dystiolaeth a oedd ar gael i'r sawl a oedd yn gwneud y penderfyniad ar y pryd. Bwriad y Panel yw bod yn dryloyw ac yn atebol a gwella dealltwriaeth, hyder a ffydd y cyhoedd yn y ffordd mae Heddlu Gwent yn defnyddio gwarediadau y tu allan i'r llys, gan ganolbwyntio'n benodol ar sicrhau cyfiawnder priodol a theg.

Yn ystod y flwyddyn, cyfarfu'r Panel Craffu ar Warediadau tu Allan i'r Llys bedair gwaith a gwnaeth sylwadau ar nifer o'r achosion a adolygwyd. Mae canlyniadau sesiynau'r Panel yn cynnwys:

- Ymgysylltu pellach gyda thimau troseddau ieuencid ynghylch materion amrywiol fel agweddau tuag at droseddau gydag arfau, canlyniadau i blant sy'n derbyn gofal, ac ystyriaethau cydraddoldeb
- Sicrhau bod ethnigrwydd, dewis iaith a rhywedd yn cael eu cynnwys mewn gwybodaeth am achosion
- Nodi'r hyfforddiant a roddir i swyddogion ynghylch anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu a phroblemau anabledd ehangach
- Sicrhau bod y data a gynhyrchir yn galluogi cymhariaeth rhwng blynyddoedd ariannol

Panel Craffu ar Hysbysiadau Cosb Benodedig COVID

Yn ystod y flwyddyn, creodd Heddlu Gwent Panel Craffu ar Hysbysiadau Cosb Benodedig COVID, wedi ei gadeirio ar y cyd gan aelod o staff Swyddfa'r Comisiynydd. Mae'r Panel yn adolygu detholiad o hysbysiadau cosb benodedig a gyhoeddwyd o ganlyniad i achosion o dorri rheolau COVID yn rheolaidd. Nod y broses yw sicrhau bod defnydd Gwent o hysbysiadau cosb benodedig yn gymesur a chyfiawn. Roedd yr adborth a ddarparwyd yn ystod y broses yn cynnwys:

- Amseriad cyhoeddi hysbysiadau mewn perthynas â rheolau'r cyfyngiadau symud a'r dull gorfodi a oedd ar waith ar y pryd
- Ystyriaeth o gefndiroedd ethnig a diwylliedig o ran dealltwriaeth pobl o'r cyfyngiadau a oedd ar waith

- Sicrhau bod prosesau priodol ar waith ar gyfer digwyddiadau a oedd yn ymwneud â phlant

Mae'r adborth hwn wedi cael ei gorffori ym mhrosesau gwella parhaol Heddlu Gwent er mwyn sicrhau bod hysbysiadau cosb benodedig yn cael eu defnyddio'n effeithiol yn ystod cyfnod y cyfyngiadau symud. Bydd gwaith monitro defnydd o hysbysiadau cosb benodedig yn parhau yn gydnaws â gorfodi cyfyngiadau COVID yng Nghymru.

D. Cwynion

Mae Swyddfa'r Comisiynydd yn derbyn adroddiadau bob tri mis oddi wrth Adran Safonau Proffesiynol Heddlu Gwent er mwyn monitro perfformiad a materion sy'n peri pryder. Mae'r meysydd yr adroddir arnynt yn cynnwys apeliadau, honiadau yn erbyn swyddogion a staff, achosion ymddygiad a'u canlyniadau, a fetio. Yn ystod 2020/21, mabwysiadodd Heddlu Gwent y ffurflen cwynion electronig genedlaethol sydd wedi gwella'r gwaith o fonitro cydraddoldeb. Defnyddir y ffurflen gan achwynwyr sy'n riportio ar-lein a gan staff i gofnodi cwynion a wnaed trwy gyfrwng 101 neu mewn gorsaf heddlu. Mae gwybodaeth monitro a gofnodwyd ar gyfer cwynion yn cynnwys ethnigrwydd, anabledd a chyfeiriadedd rhywiol ac mae'n darparu darlun cyson ar draws y cyfnod. Un o'r prif heriau yw bod y ffurflen yn dibynnu ar achwynwyr i gwblhau'r wybodaeth monitro cydraddoldeb; felly, rydym yn derbyn efallai y bydd bylchau yn y data a ddarperir gan yr adran Safonau Proffesiynol.

Yn ystod y flwyddyn, cofnodwyd 720 o gwynion gan Heddlu Gwent ynghylch amrywiaeth o faterion. O'r rhain, roedd 4.9% o achwynwyr yn nodi eu bod o gefndir ethnig leiafrifol a derbyniwyd y nifer fwyaf o gwynion gan bobl oedd yn nodi eu bod o grwpiau Asiaidd. Er nad yw natur y cwynion yn cyd-fynd â'r gwaith monitro ethnigrwydd, gellir cymharu'r proffil â phroffil o weithgareddau plismona gweithredol, gan gynnwys stopio a chwilio, a chadw pobl yn y ddalfa.

O ran cyfeiriadedd rhywiol, roedd y mwyafrif o'r cwynion gan unigolion a oedd yn nodi eu bod yn heterorywiol, ac roedd 5.4% gan bobl a oedd yn nodi eu bod yn ddeurywiol, hoyw/lesbiaidd, neu 'arall'. Roedd data anabledd yn llai cyflawn na'r categorïau eraill, ac ni ddarparwyd unrhyw wybodaeth gan 90.3% o achwynwyr. Dim ond 1.9% o unigolion oedd yn nodi bod ganddynt gyflwr iechyd meddwl neu anabledd corfforol.

Rydym yn cydnabod bod rhai cymunedau yn llai tebygol o wneud cwyn pan fyddant yn teimlo eu bod wedi cael eu trin yn annheg neu y gwahaniaethwyd yn eu herbyn. Byddwn yn parhau i godi ymwybyddiaeth o sut i wneud cwyn naill ai i Heddlu Gwent neu Swyddfa'r Comisiynydd ac yn sicrhau bod ein prosesau cwyno yn hygyrch, yn effeithlon ac yn dryloyw.

Mae ystod o nodweddion gwarchoddedig sy'n gysylltiedig â phenderfyniadau fetio wedi eu cynnwys hefyd yn adroddiadau'r Adran Safonau Proffesiynol, sy'n ein galluogi ni i fonitro demograffeg ymgeiswyr ac asesu effaith y penderfyniadau a wnaed. Mae'r Panel Apeliadau Fetio yn adolygu pob achos lle bo ymgeisydd â nodweddion gwarchoddedig sy'n gysylltiedig ag ethnigrwydd, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd ac ailbennu rhywedd wedi methu'r broses fetio (p'un a yw wedi cyflwyno

apêl ai peidio). Mae Swyddfa'r Comisiynydd yn cael ei chynrychioli ar y Panel Apeliadau Fetio. Rydym yn croesawu effaith gadarnhaol barhaus y Panel Apeliadau Fetio wrth helpu i sicrhau bod prosesau a phenderfyniadau fetio yn dryloyw.

E. Boddhad Dioddefwyr

Caiff boddhad y cyhoedd ei fesur ar draws pedair prif elfen y gwasanaeth a dderbyniwyd gan ddiodefwyr: y gwasanaeth cyfan; cael y wybodaeth ddiweddaraf; canlyniad yr ymchwiliad; a'r ffordd y cawsant eu trin. Ar draws y flwyddyn, dywedodd isafswm o 90% o ddiodefwyr wrthym eu bod yn fodlon ar y ffordd y cawsant eu trin gan Heddlu Gwent. Fodd bynnag, dywedodd tua chwarter y diodefwyr a gymerodd ran mewn arolwg nad oeddent yn fodlon o ran cael yr wybodaeth ddiweddaraf. Er mwyn gwella hyn, bydd yr Uned Gofal Dioddefwyr o fewn Connect Gwent yn gyfrifol am gysylltu â phob diodefwyr trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol i asesu pa gymorth sydd ei angen arnynt yn ogystal â chadw mewn cysylltiad rheolaidd gyda'r diodefwyr trwy gydol y broses cyfiawnder troseddol. Bydd hyn yn sicrhau bod y cymorth a'r wybodaeth a ddarperir yn briodol i bob unigolyn fel yr amlinellir yn y Cod Ymarfer ar gyfer Dioddefwyr Trosedd.

Rydym yn croesawu'r buddsoddiad hwn a'r ymrwymiad i wella'r gwasanaeth a roddir i ddiodefwyr yng Ngwent. Byddwn yn parhau i weithio gyda Heddlu Gwent a Connect Gwent i sicrhau bod anghenion diodefwyr yn cael eu deall, yn arbennig lle mae ein cymunedau amrywiol yn profi anghydraddoldeb wrth geisio cael mynediad at wasanaethau. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys casglu data amrywiaeth yn effeithiol ar gyfer diodefwyr, rhai sy'n cymryd rhan mewn arolygon boddhad a dulliau adborth eraill. Os nodir bylchau yn y gwasanaeth a ddarperir, byddwn yn cymryd camau i ymateb yn briodol trwy fframwaith comisiynu Swyddfa'r Comisiynydd.

F. Anghydraddoldeb o ran Hil yn y System Cyfiawnder Troseddol

Tua diwedd 2019/20, dechreuodd gwaith gyda Bwrdd Strategaeth Cyfiawnder Troseddol Gwent i ddeall a mynd i'r afael ag anghydraddoldeb o ran hil ar draws y system cyfiawnder troseddol yng Ngwent. I gefnogi'r gwaith hwn, darparodd Swyddfa'r Comisiynydd Bapur Briffio ar gyfer y Bwrdd, a oedd yn cynnwys canfyddiadau adroddiad y Weinyddiaeth Cyfiawnder *Tackling Racial Disparity in the Criminal Justice System: 2020 Update*. Roedd y papur briffio yn amlygu problemau o ran ymddiriedaeth, hyder a boddhad yn y system cyfiawnder troseddol i bobl yn ein cymunedau ethnig leiafrifol ledled y DU. Roedd y papur briffio hefyd yn nodi bod angen arweinyddiaeth a her gyfunol gan y Bwrdd i adnabod a deall yn well lle a pham mae anghydraddoldeb yn digwydd a'i effaith, nid yn unig ar yr unigolion hynny o gymunedau Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol sy'n ymwneud â'r broses cyfiawnder troseddol, ond ar y boblogaeth yn ehangach.

Yn ystod 2020/21, datblygwyd a chefnogwyd yr ymrwymiad hwn ymhellach trwy sefydlu'r Grŵp Strategol Cydraddoldeb Hiliol Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru, o dan y ffrwd gwaith Cydraddoldeb Hiliol. Mae aelodau Bwrdd Strategaeth Cyfiawnder Troseddol Gwent, gan gynnwys Swyddfa'r Comisiynydd, wedi ymgysylltu â'r Grŵp hwn ac wedi dechrau gwaith cydweithredol i sefydlu dull cytûn o fynd i'r afael ag

anhydraddoldeb a hiliaeth yn y system cyfiawnder troseddol ledled Cymru. Bydd y gwaith hwn yn parhau trwy gydol 2021/22, gan gynnwys datblygu Cynllun Cydraddoldeb Hiliol a'r Panel Cydraddoldeb Hiliol Arbenigol Annibynnol.

Amcan Cydraddoldeb 3: Mynediad, Ymgysylltu a Chydlyniant

Sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir gan Heddlu Gwent a Swyddfa'r Comisiynydd yn ymateb i safbwyntiau, profiadau ac anghenion pobl sy'n dweud bod ganddynt nodweddion gwarchoddedig, a bod y gwaith a wnawn yn hybu cynhwysiant a chydlyniant

A. Mynediad at wasanaethau plismona a gwybodaeth

Trwy gydol y pandemig, mae mynediad at wasanaethau plismona a gwybodaeth wedi bod yn flaenoriaeth i Swyddfa'r Comisiynydd a Heddlu Gwent. Mae parhau i gadw ein cymunedau'n ddiogel wrth ymdrin â phwysau ychwanegol ar adnoddau'r heddlu wedi bod yn her sylweddol. Mae adeiladau Heddlu Gwent wedi bod ar agor i'r cyhoedd trwy gydol y pandemig, a chafodd adnoddau eu haddasu i fod yn ddiogel o ran COVID er mwyn sicrhau diogelwch staff ac ymwelwyr.

Trwy gydol cyfnodau'r cyfyngiadau symud rydym wedi anelu at ddarparu negeseuon cyhoeddus cyson a chlir ynghylch y cyfyngiadau ar unrhyw adeg benodol. Fel y nodwyd eisoes, rydym wedi parhau i godi ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau sydd ar gael ar gyfer dioddefwyr agored i niwed a risg uchel. Rydym wedi darparu gwybodaeth reolaidd am y broblem seiberdrosedd hefyd, a gynyddodd yn sylweddol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Yn ystod y blynyddoedd diweddar, mae Heddlu Gwent wedi ychwanegu at y ffordd y gall pobl gysylltu â nhw, yn amrywio o alwadau argyfwng 999 a galwadau nad ydynt yn argyfwng 101, i gyfryngau cymdeithasol a gwasanaethau neges testun. Gofynnir i unrhyw un sy'n ffonio rhifau 999 a 101 roi gwybodaeth am eu nodweddion gwarchoddedig; fodd bynnag, nid yw hyn yn ofyniad gorfodol.

Mae amrywiaeth o wasanaethau cymorth ar gael i sicrhau mwy o hygyrchedd wrth gysylltu:

- Defnyddir Language Line i gefnogi unrhyw un nad ydynt yn siarad Saesneg. Mae hwn yn wasanaeth 24 awr y dydd y gellir ei ddefnyddio ledled y sefydliad
- Mae Heddlu Gwent wedi ymrestru i'r gwasanaeth Signlive i hwyluso cyswllt i aelodau o'n cymunedau byddar trwy ddehonglwr iaith arwyddion. Mae'r gwasanaeth hwn ar gael hefyd ar gyfer cyfweliadau ac unrhyw ymchwiliad dilynol.
- Mae BT TypeTalk ar gael i unrhyw un sy'n galw â nam ar y golwg, ac mae hefyd yn gweithio ar draws pob dull riportio arall gan gynnwys gwefan Heddlu Gwent.

Mae'r rhaglen recriwtio ar gyfer Ystafell Gyswllt a Rheoli'r Llu yn cael ei darparu'n ddwyieithog, yn Gymraeg a Saesneg. Gall ymgeiswyr gwblhau'r broses recriwtio yn Gymraeg neu yn Saesneg, neu gyfuniad o'r ddwy iaith. Mae hyn wedi helpu i

gynyddu faint o Gymraeg sydd ar gael ar y pwynt cyswllt cyntaf gyda Heddlu Gwent. Mae'r Gymraeg a chydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg yn cael ei fonitro ar wahân; fodd bynnag, mae'n rhan annatod o'n hymrwymiad i ddarparu gweithlu mwy cynrychioliadol.

Rydym yn cydnabod trwy gydol y pandemig, bod symud at ymgysylltu ar-lein wedi bod yn anfantais i unrhyw un sydd wedi allgáu yn ddigidol. I gynorthwyo unigolion sydd wedi allgáu yn ddigidol, darparwyd opsiynau ar eu cyfer, fel cyswllt ar y ffôn, neu gyfarfodydd wyneb yn wyneb lle y bo'n bosib. Rydym yn croesawu llacio'r cyfyngiadau ymhellach er mwyn dychwelyd at fwy o ymgysylltu personol.

Trwy gydol ein gweithgareddau ymgysylltu, rydym yn ceisio adborth yn gyson gan aelodau'r cyhoedd, gan gynnwys unrhyw adborth gan aelodau'r Grŵp Cynghori Annibynnol, am eu profiadau wrth gysylltu â Heddlu Gwent. Mae hyn yn ein helpu ni i adnabod a rhoi sylw i unrhyw broblemau yn ein cymunedau sy'n gysylltiedig â hwylustod cysylltu a hygyrchedd.

Ystad yr Heddlu

Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom barhau i weithio i wella hygyrchedd y gwasanaethau plismona a ddarperir i gymunedau a allai brofi rhwystrau, yn ogystal â sicrhau bod amgylcheddau gwaith yn ddiogel ac yn hygyrch i'r holl bersonél. Mae'r Comisiynydd yn gyfrifol am ystadau'r heddlu yng Ngwent ac mae ganddo Strategaeth Ystadau 10 mlynedd ar waith sy'n nodi'r weledigaeth, y sbardunau ar gyfer newid a thargedau ar gyfer gwelliannau, gan gydnabod cyfleoedd a chyfyngiadau cyfredol plismona modern. Wrth gyflawni'r Strategaeth Ystadau, mae Swyddfa'r Comisiynydd yn gweithio'n agos gyda Heddlu Gwent i ddarparu gwasanaeth plismona gweladwy a hygyrch sy'n ymateb i anghenion lleol ac sy'n rhoi sicrwydd i'r gymuned.

Yn dilyn archwiliad o ystadau'r heddlu yn 2018/19, gwnaed amryw o welliannau i adeiladau a chyfleusterau'r heddlu yn ystod y flwyddyn ddilynol. Roedd yr archwiliad yn cynnwys asesiad o gynllun ein pencadlys newydd, a ddylai fod wedi ei gwblhau tua diwedd 2021. Mae'r Adran Ystadau wedi gweithio'n agos gyda Thîm Amrywiaeth a Chynhwysiant Heddlu Gwent, y Rhwydweithiau Cymorth Staff, ac aelodau o'r Grŵp Cynghori Annibynnol er mwyn sicrhau bod y pencadlys newydd yn cynnig amgylchedd sy'n cyfrannu at les staff ac yn cefnogi mwy o amrywiaeth ar draws ein gweithlu plismona. Ein nod yw darparu amgylchedd sy'n annog cynwysoldeb er mwyn meithrin perthnasoedd cadarnhaol a pharchus rhwng ein holl staff, ac er mwyn ennyn hyder yn ein cymunedau y byddant hefyd yn cael eu trin gydag urddas ac yn deg.

Roedd y gwelliannau i'r ystyriaethau presennol o ran ystadau a chynllunio ar gyfer yr adeilad newydd yn cynnwys:

- Sicrhau amgylchedd gwbl hygyrch sy'n ymateb i anghenion pobl nad ydynt yn abl yn gorfforol a phobl â nam ar eu synhwyrau
- Darparu cyfleusterau ymolchi penodol y mae eu hangen ar gyfer arferion crefyddol

- Darparu ystafell myfyrdod ar gyfer arferion crefyddol neu fyfyrdod tawel
- Datblygu toiledau, cyfleusterau ymolchi a newid niwtral o ran y rhywiau trwy'r adeilad cyfan
- Darparu cyfleusterau newid babanod a storio llaeth y fron
- Sicrhau bod arwyddion ym mhob rhan o'r safle yn bodloni gofynion y Gymraeg.

Bydd cam presennol y Strategaeth Ystadau yn cynnwys cynlluniau ar gyfer adeiladu newydd ac adnewyddu ledled Gwent. Bydd y rhain yn cynnwys gwaith i sicrhau cydymffurfiaeth dan y Ddeddf Cydraddoldeb. Byddwn yn parhau i fonitro sut mae Heddlu Gwent yn cyflawni'r Strategaeth Ystadau i sicrhau gwasanaeth plismona sy'n gorfforol hygyrch ar gyfer ein cymunedau.

B. Ymgysylltu a Chydlyniant

Mae cydlyniant cymunedol yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o atal a lleihau troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae cymuned gydlynol yn un sy'n rhannu mwy o ymdeimlad o berthyn, sy'n gwerthfawrogi ac yn parchu amrywiaeth cefndiroedd pobl; lle mae gan y rhai o wahanol gefndiroedd gyfleoedd bywyd tebyg, a lle mae cydberthnasoedd cryf a chadarnhaol yn datblygu rhwng pobl o wahanol gefndiroedd, boed yn y gweithle, mewn ysgolion neu mewn cymdogaethau. Os yw cydlyniant yn gyfyngedig neu'n cael ei danseilio, mae troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn fwy tebygol o ddigwydd.

Gwelwyd heriau sylweddol i gydlyniant a chydberthnasau gyda chymunedau yn ystod 2020, gyda'r pandemig ac effaith digwyddiadau fel marwolaeth George Floyd yn amlygu anghydraddoldeb hiliol ac yn tanseilio ymddiriedaeth a hyder cymunedau mewn gwasanaethau cyhoeddus ledled y DU. Mae plismona wedi parhau i fod yn destun craffu manwl gan y cyhoedd, yn arbennig mewn perthynas â stopio a chwilio a defnyddio grym, fel y nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn.

Mae Swyddfa'r Comisiynydd, Heddlu Gwent, a phartneriaid yn parhau i gydweithio i greu Gwent sy'n integredig, cydlynol a chadarn. Caiff y gwaith hwn ei danategu gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) Llywodraeth Cymru a'r weledigaeth am "Gymru o Gymunedau Cydlynol". Rhan annatod o'n gwaith tuag at gydlyniant cymunedol yw ymgysylltu â chymunedau, rhanddeiliaid a phartneriaid, gyda'r nod o feithrin ymddiriedaeth a hyder mewn gwasanaethau cyhoeddus i fynd i'r afael â'r materion sy'n effeithio ar gydlyniant cymunedol. Trwy gydol y pandemig, mae Swyddfa'r Comisiynydd a Heddlu Gwent wedi gweithio i fod yn hygyrch ac yn weladwy i bob un o'n cymunedau, gan ganolbwyntio ar y rhai a effeithiwyd yn anghymesur yn ystod y cyfnod hwn.

Mae gweithgareddau Swyddfa'r Comisiynydd wedi cefnogi amrywiaeth o ymgyrchoedd sy'n gysylltiedig ag ymgysylltu a chydlyniant. Er enghraifft, rydym yn cyfrannu at alwadau ffôn cymunedol Heddlu Gwent, cyfarfod rhithiol rheolaidd sy'n galluogi aelodau o'r gymuned i leisio a thrafod pryderon gyda'r asiantaethau perthnasol. Ymunodd y Comisiynydd â'r Prif Gwnstabl am ddwy sesiwn ar-lein gydag arweinwyr o gymunedau Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol Gwent hefyd. Roedd y ddwy sesiwn yn gyfle i ymgysylltu'n uniongyrchol ac i drafod yn onest y materion a godwyd er mwyn cefnogi ein gwaith i wella ein cydberthnasau gyda'n cymunedau.

Fel y nodwyd yn flaenorol, drwy gydol y flwyddyn, mae Swyddfa'r Comisiynydd wedi darparu negeseuon rheolaidd a chyson sy'n gysylltiedig â chydlyniant, troseddau casineb, cam-drin domestig a diogelwch cymunedol. Byddwn yn parhau i wneud defnydd helaeth o blatfformau cyfryngau cymdeithasol a thraddodiadol yn ogystal ag ymgysylltu wyneb yn wyneb, yn amodol ar gyfyngiadau COVID, i sicrhau agwedd gynaliadwy tuag at ymgysylltu.



Yn ystod y flwyddyn, Swyddfa'r Comisiynydd oedd y gyntaf o swyddfeydd comisiynwyr yr heddlu a throedd Cymru i dderbyn y Siarter Safonau Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc. Mae'r Siarter yn ymrwmo i weithio tuag at y saith Safon Cyfranogiad Cenedlaethol wrth ymgysylltu â phlant a phobl ifanc ac wrth weithio gyda nhw. Nod y safonau cyfranogiad yw helpu sefydliadau i roi plant a phobl ifanc wrth galon eu gwaith pan fyddant yn llunio prosesau, cynlluniau a phrosiectau. Mae Swyddfa'r Comisiynydd yn gweithio mewn partneriaeth gyda nifer o sefydliadau statudol a gwirfoddol yng Ngwent ac yn ariannu amrywiaeth o brosiectau ieuenctid sy'n darparu cymorth sylfaenol i arwain unigolion oddi wrth droseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae Swyddfa'r Comisiynydd yn gweithio tuag at ennill dyfarniad Nod Barcud Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol yn awr. Bydd y broses Nod Barcud yn asesu pa mor dda yr ydym yn ymgysylltu â phlant a phobl ifanc, gwranddo arnynt a chynnig adborth iddynt.

Mae Strategaeth Ymgysylltu a Chyfathrebu ar y Cyd Swyddfa'r Comisiynydd a Heddlu Gwent 2018-2022 yn ceisio sicrhau ein bod yn ymgysylltu'n effeithiol ag aelodau'r cyhoedd trwy'r amser gan gynnwys pobl agored i niwed, dioddefwyr troseddau, grwpiau cymunedol, pobl nad ydynt yn cael eu clywed yn aml a phartneriaid strategol eraill. Mae hefyd yn ceisio sicrhau bod pob aelod o'r gymuned yn cael cyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau ymgysylltu, lle bynnag y bo'n ymarferol. Mae'r Strategaeth wedi cael effaith gadarnhaol ar ganlyniadau ymgysylltu Swyddfa'r Comisiynydd yn ystod 2020/21, fel y nodir yn yr adroddiad hwn. Byddwn yn parhau i adolygu gweithgareddau ymgysylltu Heddlu Gwent o dan yr amcanion ymgysylltu a chyfathrebu, er mwyn asesu effeithiolrwydd eu strategaethau a'u hymgyrchoedd a nodi argymhellion ar gyfer gwelliannau lle nodir bylchau.

Cronfa Gymunedol yr Heddlu

Nod Cronfa Gymunedol yr Heddlu yw galluogi plant a phobl ifanc yng Ngwent i fod yn ddiogel, yn iach ac yn hapus. Mae'n gwneud hyn trwy gefnogi prosiectau sy'n

gweithio gyda phobl ifanc sydd mewn perygl o ddechrau ymwneud â throsedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Mae gwaith cymunedol a gwaith partner yn ganolog i lwyddiant Cronfa Gymunedol yr Heddlu, gyda thimau heddlu lleol yn gweithio wrth galon y grwpiau cymunedol hyn. Wrth weithredu fel y cyswllt rhwng Swyddfa'r Comisiynydd, Heddlu Gwent a'r buddiolwyr, mae timau'r heddlu yn rhoi dealltwriaeth inni o faterion lleol fel y gallwn wella ein gwybodaeth wrth ystyried ceisiadau a chynnig cymorth i'r sefydliadau yn ystod y broses ymgeisio ac wrth gyflawni eu prosiectau. Mae ystyriaethau cydraddoldeb, amrywiaeth a hygyrchedd yn rhan o'n prosesau penderfynu, sy'n cefnogi ein dyletswyddau o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Yn 2020/21, derbyniodd wyth sefydliad gyllid, gydag un sefydliad arall yn cael cyllid ail flwyddyn, yn unol ag amodau. Dyfarnwyd dros £315,000 yn ystod y flwyddyn. Mae'r prosiectau a'r ymyraethau a dderbyniodd gymorth yn cynnwys:

- Canolfan Galw Heibio Pobl Ifanc Senghennydd, sy'n darparu gweithgareddau allgymorth i bobl ifanc a'u teuluoedd sydd mewn perygl o gyflawni, ail gyflawni neu ddod yn ddiodefwyr trosedd a/neu ymddygiad gwrthgymdeithasol.
- Mae KidCare4U yn darparu Clwb Plant Dydd Sadwrn i blant a phobl ifanc rhwng 5 ac 16 oed mewn cymunedau ethnig leiafrifol. Mae'n darparu amgylchedd diogel i bobl ifanc ddatblygu, cyfleoedd i fynd ar leoliad, gwella hunan-barch a hyder yn ogystal â hybu cydberthnasau cadarnhaol rhwng cymunedau.
- Trwy Weithiwr Ieuenctid Datgysylltiedig, mae Cyswllt Cymunedol Dyffryn yn ymgysylltu â phobl ifanc sy'n anoddach eu cyrraedd, nad ydynt yn cymryd rhan yn y gweithgareddau yn y ganolfan y mae'r sefydliad yn eu cynnig. Ochr yn ochr ag asiantaethau arbenigol, mae'r prosiect yn darparu cymorth alcohol a chyffuriau a chyfleoedd dargyfeiriol i bobl ifanc.

Mae'r canlyniadau i blant sy'n cymryd rhan yn y prosiectau hyn yn cynnwys gwell iechyd a lles, rhagor o ymdeimlad o ddiogelwch, cydberthnasoedd mwy cadarnhaol ag eraill, ac maent wedi gallu gwneud dewisiadau bywyd yn fwy gwybodus ac yn well. Maent wedi cael cymorth hefyd i osgoi trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Gwirfoddolwyr yr Heddlu

Mae'r rhaglen Dinasyddion yn y Maes Plismona wedi parhau i ddatblygu yn ystod y flwyddyn. Mae tair elfen i'r rhaglen: Heddlu Gwirfoddol; Gwirfoddolwyr Cefnogi'r Heddlu; ac Ymgysylltu â Phobl Ifanc. Mae'r dulliau ymgysylltu a ddefnyddir gan y Tîm Dinasyddion yn y Maes Plismona yn destun adolygiadau rheolaidd i sicrhau bod grwpiau o bobl ifanc a gwirfoddolwyr yn ein cymunedau nad ydynt yn cael eu cynrychioli'n ddigonol yn cael cynrychiolaeth.

Yn ystod 2020, gweithiodd prosiect ymgysylltu NxtGen gydag ysgolion a phartneriaid i ehangu'r cyfleoedd yr oedd yn eu cynnig a rhoi cymorth i bobl ifanc yn ystod eu glasoed. Mae gwaith penodol yn cynnwys 'The Beat', prosiect ymgysylltu â disgyblion sydd wedi cael eu symud o leoliadau addysg prif ffrwd neu sydd ar ymylon gweithgarwch troseddol. Mae'r Tîm NxtGen yn ymgysylltu â thimau Plismona

Cymdogaeth a thimau Troseddau leuenctid hefyd i gyfeirio pobl ifanc a nodwyd trwy'r broses ymddygiad gwrthgymdeithasol 'Strike One' at brosiectau wedi'u hariannu gan Swyddfa'r Comisiynydd a phartneriaid neu sefydliadau trydydd sector. Trwy ymyraethau dargyfeiriol fel chwaraeon, cerddoriaeth, cynlluniau Cadetiaid neu weithgareddau eraill, nod y prosiect yw cadw pobl ifanc allan o'r system cyfiawnder troseddol. Hyd yn hyn, mae prosiect 'The Beat' wedi ymgysylltu â 18 o bobl ifanc, y mae 16 ohonynt wedi mynd ymlaen i gyflawni cymhwyster ffurfiol. Yn ogystal, mae 50 o bobl ifanc wedi cael eu hatgyfeirio at weithgareddau dargyfeiriol.



Rydym yn parhau i gefnogi'r rhaglen Heddlu Bach a gynigir i holl blant oedran ysgol gynradd yng Ngwent. Ar hyn o bryd mae 354 o blant mewn dros 50 o ysgolion cynradd yn ymwneud â'r rhaglen. Cyflwynwyd y rhaglen yn wreiddiol gan Swyddfa'r Comisiynydd a Heddlu Gwent yn 2017 ac ehangwyd amrywiaeth a chynhwysiant y rhaglen trwy gynnwys ysgol Anghenion Addysgol Arbennig yn 2019 a phlant o gymuned Mosg Berea yn 2020. Yn ystod y flwyddyn, ymgysylltodd 11% o blant o gefndiroedd amrywiol, gan gynnwys Anghenion Addysgol Arbennig, â'r rhaglen. Mae hwn yn ganlyniad cadarnhaol ac rydym yn edrych ymlaen at ei ddatblygu wrth i gyfyngiadau COVID lacio eto.

Mae'r cyfleoedd hyn yn galluogi plant ac ysgolion sy'n ymuno â'r rhaglenni i fynd i'r afael â phroblemau lleol. Y plant sy'n tynnu sylw at y problemau hyn, ac mae hyn yn eu galluogi nhw i berchnogi'r gweithgareddau wrth ymgysylltu â thimau Plismona Cymdogaeth Lleol. Yn ogystal, mae'r rhaglenni'n annog a chefnogi cyfranogwyr i ddod yn ddinasyddion moesegol wybodus ar gyfer y dyfodol, ac yn datblygu eu dealltwriaeth o'r heddlu a'u cymuned. Mae hyn yn cyfrannu at fwy o gydlyniant cymunedol trwy hybu hyder yn Heddlu Gwent ac egwyddorion plismona trwy gydsyniad, yn ogystal â chynyddu cyfathrebu gyda'r cymunedau dan sylw.

Mae'r ymgyrch Heddlu Bach wedi ychwanegu gwerth at raglen Cadetiaid yr Heddlu sydd eisoes wedi ennill ei phlwyf, ac sydd wedi gweld cynnydd yn nifer y bobl ifanc yn ein cymunedau sy'n ymwneud â hi. Ar hyn o bryd mae'r rhaglen yn ymgysylltu â 105 o bobl ifanc ledled Gwent. Mae'r rhaglen Cadetiaid yn hybu dealltwriaeth ymarferol o blismona ymysg pobl ifanc. Mae hefyd yn ceisio annog dinasyddiaeth dda ac yn cefnogi pobl ifanc i ddod yn oedolion cyfrifol, aeddfed ac ystyriol. Aelodau ifanc o'r gymuned yw'r cadetiaid, rhwng 14 a 18 oed, sy'n ymwneud ag amrywiaeth eang o weithgareddau a digwyddiadau. Yn ogystal â dysgu am weithdrefnau'r heddlu

a'r gyfraith, mae cadetiaid yn chwarae rhan hollbwysig mewn digwyddiadau yn y gymuned hefyd, yn ymgysylltu â'r cyhoedd a'u dysgu nhw am atal trosedd. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan Heddlu Gwent - [Cadetiaid yr Heddlu | Heddlu Gwent](#).

Mae Swyddfa'r Comisiynydd a Heddlu Gwent wedi ymroi i sicrhau bod pobl ifanc yn cymryd rhan yn ein cynlluniau gwirfoddol a byddwn yn datblygu'r gwaith hwn ymhellach yn y flwyddyn sydd i ddod. Rydym yn croesawu'r canlyniadau cadarnhaol mae'r rhaglenni hyn yn eu sicrhau i'n plant a'n pobl ifanc a byddwn yn parhau i weithio gyda phartneriaid allweddol i ganfod mwy o gyfleoedd i ymgysylltu a chefnogi.

Grŵp Cynghori Annibynnol

Mae Heddlu Gwent yn parhau i gyd-gysylltu'r Grŵp Cynghori Annibynnol, sef grŵp gwirfoddol sy'n cynnwys aelodau o'r cyhoedd sy'n annibynnol ar yr heddlu. Swyddogaeth y Grŵp Cynghori Annibynnol yw adolygu a herio arferion plismona mewn ffordd adeiladol, gan helpu i wella gwasanaethau plismona i'r cyhoedd.

Mae staff Swyddfa'r Comisiynydd wedi datblygu perthynas â'r Grŵp Cynghori Annibynnol, ac maent yn mynychu cyfarfodydd yn rheolaidd er mwyn rhoi sylwadau ar blismona a gweithgareddau Swyddfa'r Comisiynydd. Yn ogystal ag ymgysylltu â'r Grŵp Cynghori Annibynnol yn rhan o'r Panel Craffu ar Gyfreithlondeb, mae Swyddfa'r Comisiynydd yn croesawu cyfranogiad aelodau yn ei gweithgareddau, gan ddarparu safbwyntiau cymunedol ychwanegol a chefnogaeth a her pan fo hynny'n briodol. Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi parhau i weithio gyda'r Grŵp Cynghori Annibynnol a Heddlu Gwent mewn gweithgareddau sydd yn gydnaws â Chynllun Gweithredu'r Grŵp Cynghori Annibynnol. Mae Cynllun Gweithredu'r Grŵp Cynghori Annibynnol yn helpu i sicrhau bod aelodau'n gallu cymryd rhan lawn yn y cyfleoedd a ddarperir drwy eu cyfranogiad, gan gydweddu eu gwybodaeth a'u harbenigedd â'r maes mwyaf priodol o fusnes yr heddlu.

Mae'r Grŵp Cynghori Annibynnol yn ymwneud â Phwyllgor Moeseg Heddlu Gwent hefyd, sef grŵp sy'n rhoi cyngor a/neu ganllawiau mewn cysylltiad â chyfyng-gyngor moesegol a gyflwynir i'r Pwyllgor. Mae aelodau craidd eraill yn cynnwys swyddogion heddlu, staff a Swyddfa'r Comisiynydd. Mae'r cyngor a roddwyd gan y Pwyllgor wedi cael ei ddefnyddio i lywio'r broses o wneud penderfyniadau ar draws ystod o weithgareddau strategol a gweithredol, neu i roi sicrwydd bod y camau a gymerwyd yn briodol ar y pryd.

Hawl i Holi Ieuencid

Ym mis Mawrth 2021, cynhaliwyd ein trydydd digwyddiad Hawl i Holi Ieuencid, mewn partneriaeth â Fforwm Ieuencid Rhanbarthol Gwent. Mae'r digwyddiad blynyddol yn rhoi cyfle i bobl ifanc holi panel o bobl sy'n gwneud penderfyniadau ar amrywiaeth o bynciau sy'n bwysig iddynt. Roedd dros 100 o bobl ifanc yn bresennol yn y sesiwn rhithiol, yn cynrychioli amrywiaeth o ddiwylliannau a chefnidiroedd o bob

un o ardaloedd y pum awdurdod lleol. Maisy Evans o Gyngor Ieuenctid Torfaen oedd yn cadeirio'r digwyddiad.

Roedd y Panel yn cynnwys Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd Jeff Cuthbert; Prif Gwnstabl Heddlu Gwent, Pam Kelly; Dr Rhiannon Cobner, Seicolegydd Clinigol Ymgynghorol ac Arweinydd Seicoleg Cymuned Gwent; Nicola Fitzpatrick, Pennaeth Gwasanaethau Cam-drin Domestig Llamau; ac Anita Dillon o Gyrfa Cymru. Gofynnwyd ystod eang o gwestiynau ar bynciau fel iechyd meddwl, gobeithion gyrfaoedd, digartrefedd ymysg pobl ifanc a cham-drin domestig.

Rydym yn croesawu'r her a'r adborth gan ein cymuned o bobl ifanc yn y digwyddiad hwn. Mae eu hymgysylltiad yn gyfle gwych arall i glywed am y pethau sydd o bwys go iawn i bobl ifanc yng Ngwent ac i'w deall.

Ymgysylltu â'r Gyllideb

Lansiodd Swyddfa'r Comisiynydd ei harolwg 'Lleisiwch eich barn ar blismona' ddydd Llun 11 Tachwedd 2020, a oedd yn cynnwys cwestiwn ynglŷn â'r praesept. Caeodd yr arolwg ddydd Sul 10 Ionawr 2021 ar ôl rhedeg am naw wythnos. Oherwydd y cyfyngiadau ar waith ar yr adeg hon, roedd y gwaith ymgysylltu'n canolbwyntio'n bennaf ar hyrwyddo'r arolwg ar-lein. Cefnogwyd hyn gan lawer o gyfleoedd amryfal i ymgysylltu wyneb yn wyneb a mwy o waith i dargedu cymunedau anoddach eu cyrraedd. Roedd cynnig wyneb yn wyneb ar gael a chafodd ei hyrwyddo i sefydliadau, felly nid dull seiliedig ar ddarlledu yn unig a ddefnyddiodd Swyddfa'r Comisiynydd.

Cynhaliwyd y prif arolwg yn ddwyieithog a gofynnwyd 12 cwestiwn (yn dibynnu ar atebion). Cwblhaodd 1,259 o bobl yr arolwg. Dywedodd y rhan fwyaf o ymatebwyr mai Gwyn - Prydeinig oedd eu hethnigrwydd. Fodd bynnag, nododd 70 o bobl (5.6%) ethnigrwydd arall. At hynny, nododd 11% o ymatebwyr eu bod yn ystyried bod ganddynt anabledd. Derbyniwyd 1,242 o ymatebion yn Saesneg a 17 yn Gymraeg. Y llynedd cyflwynwyd 37 arolwg yn Gymraeg; fodd bynnag, roedd hwn yn swm sylweddol uwch nac yn y blynyddoedd blaenorol, lle'r oedd ymatebion yn nodweddiadol dan 10. Hyrwyddwyd yr arolwg yn rhagweithiol trwy'r un rhwydweithiau Cymraeg yng Ngwent a'r ddwy flynedd flaenorol.

Roedd creu cynnwys pwrpasol ar gyfer partneriaid a sefydliadau yn golygu bod mwy o bobl yn gallu defnyddio a rhannu'r arolwg, a chwaraeodd ran hollbwysig yn dyblu'r ymateb ar-lein i arolwg eleni. Galluogodd i Swyddfa'r Comisiynydd ymgysylltu â phobl y tu allan i'n cynulleidfa graidd arferol. Nid oedd y cynnwys pwrpasol hwn wedi ei gyfyngu i wahanol bartneriaid ond hefyd i wahanol gynulleidfaoedd. Yn ogystal â hyrwyddo'r arolwg yn gyffredinol, gwnaed ymdrech arbennig i sicrhau bod pobl gyda nodweddion gwarchoddedig yn cael eu clywed. Er mwyn gwneud hyn, cynhyrwyd fersiwn hawdd ei ddarllen, a chafodd gohebiaeth ei rhaedru i bartneriaid yn gweithio gyda'r henoed (fel Age Cymru Gwent) a thrigolion LHDT+ (trwy Umbrella Cymru, er enghraifft).

Rhannwyd gohebiaeth gyda landlordiaid cymdeithasol cofrestredig lleol hefyd a sefydliadau sy'n gweithio gyda chymunedau Sipsiwn a Theithwyr. Am y tro cyntaf, anfonwyd gohebiaeth mewn gwahanol ieithoedd hefyd i hyrwyddo'r arolwg. Cyfieithwyd negeseuon i Arabeg, Bengali, Pacistaneg, Urdu a Phwyleg ac yna cawsant eu rhannu gyda swyddogion cydlyniant cymunedol cynghorau. Roedd hyn yn golygu bod gohebiaeth wedi cael ei hanfon mewn wyth iaith.

Trwy gydol yr arolwg, cafodd ymatebwyr gyfle i gynnig sylwadau ychwanegol am faterion plismona. Roedd y rhan fwyaf o'r adborth ynghylch plismona yng Ngwent, ar lafar ac yn ysgrifenedig, yn canolbwyntio ar amlygrwydd yr heddlu mewn cymunedau a gorfodi rheolau COVID-19. Roedd y sylwadau mwyaf poblogaidd a dderbyniwyd yn canolbwyntio ar:

- Ddiffyg amlygrwydd yr heddlu
- Gorfodi rheolau COVID yn rhy drugarog
- Fforddiadwyedd
- Canmol a beirniadu digwyddiadau unigol.

Rydym yn croesawu'r ffaith bod canlyniadau'r gweithgarwch hwn yn gadarnhaol iawn, sy'n dangos sut rydym yn adolygu ein dulliau ymgysylltu â'n cymunedau yn gyson.

Amcan Cydraddoldeb 4: Creu Gweithlu Cynrychioliadol a Hyrwyddo Tegwch

Gweithio tuag at weithlu cynrychioliadol a diwylliant gweithle cynhwysol, a sicrhau bod pawb sy'n gweithio i Heddlu Gwent a Swyddfa'r Comisiynydd yn cael eu trin yn deg a heb wahaniaethu

Mae cymunedau nad ydynt yn gweld eu hunain yn cael eu cynrychioli yn nemograffeg yr Heddlu yn llai tebygol o fod yn hyderus yn y ffordd y cânt eu plismona, sy'n gallu arwain at densiwn sylweddol yn y gymuned. Mae cymunedau sy'n newid yn gyflym hefyd yn golygu, yn weithredol, bod angen i ni sicrhau bod gan ein swyddogion amrywiaeth o sgiliau a gwybodaeth (er enghraifft, iaith, dealltwriaeth ddiwylliannol) sy'n eu helpu i wneud eu gwaith yn effeithiol.

A. Recriwtio a Chynrychiolaeth

Rydym wedi parhau i gefnogi a monitro gwaith Heddlu Gwent tuag at ddod yn weithlu sy'n cynrychioli'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Mae presenoldeb mewn cyfarfodydd mewnol yn darparu goruchwyliaeth a chraffu ar y cynnydd a wnaed yn erbyn Strategaeth a Chynllun Gweithredu Gweithlu Cynrychioliadol Heddlu Gwent a gwaith y Swyddogion Allgymorth Gweithredu Cadarnhaol. Er ein bod yn cydnabod bod y Strategaeth yn ymwneud â gwella'r holl dangynrychiolaeth, yn unol â gweithgareddau cenedlaethol a gwaith blaenoriaeth lleol a wnaed yn ystod

2020/21, mae wedi canolbwyntio ar gynyddu nifer y swyddogion heddlu o leiafrifoedd ethnig.

Diolch i ehangder y gwaith a barhaodd yn ystod y flwyddyn, mae Heddlu Gwent wedi cynyddu nifer y swyddogion o leiafrifoedd ethnig o 2.2% i 2.5%, swyddogion cymorth cymunedol o 4.9% i 6.1%, a staff heddlu o 1.4% i 1.5%. Cynyddodd nifer y swyddogion heddlu benywaidd yn ystod y flwyddyn hefyd o 35.1% i 36.3%. Rydym yn croesawu canlyniadau cadarnhaol y gwaith pwrpasol hwn ac edrychwn ymlaen at amrywio ein gwasanaeth heddlu ymhellach dros y flwyddyn sydd i ddod trwy recriwtio ychwanegol Ymgyrch Uplift.

Ym mis Mawrth 2021, dechreuodd Heddlu Gwent a Swyddfa'r Comisiynydd recriwtio ar gyfer eu rhaglen prentisiaeth staff yr heddlu gyntaf, gan ddefnyddio dull pwrpasol i dargedu grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol a chymunedau sy'n dioddef amddifadedd economaidd-gymdeithasol.

Mae Swyddfa'r Comisiynydd yn monitro gwaith adrodd Heddlu Gwent ar y Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau, sydd bellach yn rhan o'i Strategaeth a Chynllun Gweithredu Gweithlu Cynrychioliadol. Caiff adroddiad ar y Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau ei baratoi a'i gyhoeddi bob blwyddyn gan Heddlu Gwent - [Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant | Heddlu Gwent](#). Mae Heddlu Gwent wedi parhau i weithio i gyflawni diwylliant o amrywiaeth a chynhwysiant er mwyn gwella'r bwlch cyflog cymedrig a chanolrifol. Yn ystod y flwyddyn, cyflwynwyd mwy o hyfforddiant rhagfarn ddiarwybod ar draws y sefydliad ynghyd â gwaith i hyrwyddo gweithredu cadarnhaol. Bydd mabwysiadu dull recriwtio cydradd rhwng y rhywiau, mentora o chwith, cynhwysiant ac ymrwymiad i'r mudiad HeForShe yn helpu i sicrhau bod cyfran y menywod yn gydradd yn y meysydd sydd angen eu gwella a bod rhwystrau sefydliadol helaeth yn cael eu dileu. Byddwn yn parhau i fonitro cynnydd Heddlu Gwent o ran dod yn sefydliad cydradd rhwng y rhywiau, ac yn defnyddio egwyddorion tebyg wrth gyflawni gwaith Swyddfa'r Comisiynydd.

Oherwydd nifer y cyflogeion yn y sefydliad, nid oes gofyniad cyfreithiol ar Swyddfa'r Comisiynydd i gynnal ac adrodd ar ein dadansoddiad o gyflog y rhywiau. Serch hynny, byddwn yn parhau i fonitro ac adolygu ein strwythurau cyflog a pherfformiad yn fewnol yn unol â pholisi a rennir gyda Heddlu Gwent. Mae Cynllun Cyflawni ein CCS hefyd yn cynnwys nifer o gamau gweithredu a gweithgareddau i feithrin cydraddoldeb rhwng y rhywiau yn y gweithle, gan gynnwys ymrwymiad i'r mudiad HeForShe.

Caiff data demograffeg ei gofnodi at ddibenion monitro (lle y'i datgelir) a'i gyhoeddi ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd - [Y Tîm | Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd Gwent \(pcc.police.uk\)](#). Yn 2020/21, roedd tîm Swyddfa'r Comisiynydd yn cynnwys y staff canlynol (ar wahân i'r Comisiynydd a'r Dirprwy Gomisiynydd):

Cynrychiolaeth staff Swyddfa'r Comisiynydd 2020/21:

Nifer y swyddi yn y strwythur 17 (FTE)

<i>Cyfran y staff sy'n fenywod</i>	12
<i>Cyfran y staff sy'n aelodau o leiafrif ethnig</i>	0
<i>Cyfran y staff ag anabledd</i>	2

Rydym yn cydnabod nad yw'r ystod o nodweddion gwarchoddedig yn cael ei chynrychioli'n ddigonol yn Swyddfa'r Comisiynydd. Mae'r Comisiynydd wedi ymrwymo i wella amrywiaeth y sefydliad pan gyfyd cyfleoedd i wneud hynny. Rydym yn 'Ymroddedig' o hyd tuag at fod yn Hyderus o ran Anabledd ac yn hyrwyddo hynny ar ein gwefan.

Rydym wedi parhau i archwilio cyfleoedd i gydweddu ein hunain â mentrau cyflogaeth eraill er mwyn cefnogi ein gwaith tuag at gynyddu amrywiaeth ein staff. Er enghraifft, yn ystod y flwyddyn gwnaethom ddechrau gweithio gyda Chwarae Teg, sef prif elusen cydraddoldeb rhywiol Cymru, gyda'r nod o ddod yn Gyflogwr Chwarae Teg. Rydym yn dymuno bod yn weithle lle gall pawb gyflawni eu llawn botensial ni waeth beth fo'u rhywedd. Rydym yn falch o fod wedi ennill Gwobr Arian a oedd yn dangos ein hymrwymiad i sicrhau cydraddoldeb rhywiol yn ein sefydliad, gan roi manteision gweithlu gwirioneddol gybtwys inni.

Yn ehangach na hynny, rydym yn dymuno chwarae ein rhan wrth fynd i'r afael â rhwystrau i waith fel bod pawb, ni waeth beth fo'u cefndir nac unrhyw nodweddion gwarchoddedig, yn gallu cyflawni eu potensial. Er mwyn manteisio i'r eithaf ar unrhyw gyfleoedd i amrywio gweithlu Swyddfa'r Comisiynydd, byddwn yn gwneud mwy o waith ymgysylltu uniongyrchol â chymunedau nad ydynt yn cael eu cynrychioli'n ddigonol (yn amodol ar ganllawiau COVID) a chodi ymwybyddiaeth o Swyddfa'r Comisiynydd, gan ddangos ein datblygiad fel sefydliad teg a chynhwysol.

Y Gymraeg

Nid yw'r Ddeddf Cydraddoldeb yn cwmpasu'r Gymraeg fel nodwedd. Cyflwynodd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 y cysyniad o Safonau'r Gymraeg yn 2016 ar gyfer cyrff cyhoeddus a sefydliadau eraill a enwir. Rhoddwyd dogfennau Safonau ar wahân i'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl a chyhoeddir Adroddiadau Cydymffurfio â Safonau unigol yn flynyddol.

Mae llawer o'r gofynion o dan Safonau'r Gymraeg yn cyd-fynd â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus. Mae arferion gwaith mewnol yn parhau i esblygu er mwyn sicrhau bod egwyddor cydraddoldeb y Gymraeg yn cael ei pharchu ym mhob agwedd ar ddarparu gwasanaethau. Caiff cynnydd ei fonitro o'i gymharu â'r Safonau yng Nghyfarfod y Gymraeg, y mae Swyddfa'r Comisiynydd yn bresennol ynddo. Rydym wedi parhau i weithio gyda Heddlu Gwent i wella hygyrchedd ein gwasanaethau Cymraeg a phryd y maent ar gael, gan gynnwys yn ystod arferion recriwtio. Mae Heddlu Gwent wedi cyhoeddi Adroddiad Cydymffurfiaeth Blynyddol sy'n dangos cynnydd a heriau parhaus y sefydliad.

Mae Swyddfa'r Comisiynydd wedi cyhoeddi Adroddiad Cydymffurfiaeth Blynyddol hefyd sydd ar gael yma [Y Gymraeg | Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd Gwent \(pcc.police.uk\)](#), sy'n ymwneud ag amrywiaeth o safonau penodol ar draws ein darpariaeth gwasanaeth, ein gwaith llunio polisiâu a'n gweithgareddau gweithredol. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn dangos ein cynnydd a lle rydym yn dal i weithio i wella ein galluoedd, yn ogystal ag unrhyw gyflawniadau ychwanegol sy'n gysylltiedig â Strategaeth Y Gymraeg ar y Cyd Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd Gwent a Heddlu Gwent 2020-2023. Dyma'r hyn a wnaethom yn ystod y flwyddyn:

- Lansio sianel Facebook Cymraeg
- Gwella'r ffordd mae ein gwefan yn cefnogi gweinyddiaeth gwybodaeth a dogfennau Cymraeg
- Dechrau ymarfer hunanasesu i benderfynu sut rydym yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg trwy'r cyfnod COVID
- Adnewyddu ein Strategaeth y Gymraeg ar y Cyd gyda Heddlu Gwent
- Adolygu ein gweithdrefn ar gyfer cwynion yn ymwneud â'n Cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg.

Rydym yn parhau i fonitro effaith COVID-19 ar sut rydym yn darparu ein gwasanaethau Cymraeg, gan wneud y defnydd gorau posibl o dechnoleg i sicrhau ein bod mor hygyrch â phosibl i'n cymunedau. Byddwn yn dal i adolygu'r gwaith hwn wrth i gyfyngiadau newid i sicrhau ein bod yn darparu'r gwasanaeth gorau posibl yn unol â'r amodau. Rydym yn parhau i ymgysylltu â Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg ynglŷn ag unrhyw arfer da a nodir neu heriau sy'n dod i'r amlwg wrth i ni barhau i wella'r ddarpariaeth o wasanaeth dwyieithog i ddinasyddion Gwent.

B. Lles

Mae lles swyddogion a staff wedi parhau i fod yn ganolbwynt i Swyddfa'r Comisiynydd a Heddlu Gwent yn ystod y flwyddyn. Caiff lles ac absenoldeb oherwydd salwch Heddlu Gwent eu monitro gan Swyddfa'r Comisiynydd yn y Bwrdd Strategaeth a Pherfformiad.

Ym mis Mawrth 2020 cafodd holl staff Swyddfa'r Comisiynydd gyfarwyddyd i weithio gartref, yn unol â deddfwriaeth cyfyngiadau symud Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU a chanllawiau yng Nghymru. Rhoddwyd prosesau ar waith i gefnogi staff i barhau i ymgymryd â'u swyddi a rheoli eu hamser gwaith yn effeithiol gan gydbwysu ymrwymadau teulu a chartref ar yr un pryd. Cynhaliwyd cyfarfodydd tîm rheolaidd ar-lein a chynhaliwyd sesiynau goruchwyllo 1:1 rhwng staff a rheolwyr llinell ar sail hyblyg, yn unol ag anghenion yr unigolyn. Mae 'Diwrnodau Cwrdd i Ffwrdd' Swyddfa'r Comisiynydd wedi parhau i ddigwydd yn rhithiol i gefnogi staff ac ymgysylltu â nhw yn ystod y cyfnod ansicr a digynsail hwn. Mae pecynnau profion llif unffordd ar gael i'r holl staff ac mae mesurau diogelwch COVID yn cael eu monitro'n drwyadl i sicrhau ein bod yn cadw'n ddiogel wrth i ni symud yn raddol at gyfuniad o weithio yn y swyddfa a gweithio gartref.

Mae Heddlu Gwent wedi darparu amrywiaeth o ddeunyddiau lles i gefnogi staff a swyddogion (gan gynnwys Swyddfa'r Comisiynydd) trwy gydol y pandemig a gyda lles unigol. Roedd hyn yn cynnwys sefydlu sesiynau 'dysgu dros ginio' a gafodd eu recordio a'u huwch lwytho i'r fewnwyd er mwyn i bobl eu gwyllo yn eu hamser eu hunain. Roedd pynciau'n cynnwys pryderon am y cyfyngiadau symud, arferion da o ran cwsg, Flint House (cymorth seibiant ac adfer), cwnsela ac ymwybyddiaeth dicter. Ochr yn ochr â hyn, dosbarthwyd taflenni gyda dolenni i helpu unigolion i ofalu am eu lles. Crëwyd sesiynau galw heibio dydd Gwener a gynhaliwyd am nifer o fisoedd, a sefydlwyd dosbarthiadau ymarfer corff ar-lein fel HITT ac Yoga. Cafodd 14 ymarferydd ymwybodol o drawma TRiM eu recriwtio a'u hyfforddi hefyd. Bydd

agwedd fwy strwythuredig tuag at faterion lles yn 2021, gyda chynlluniau blynyddol a goliau clir a bydd arweinydd lles yn cael ei recriwtio hefyd.

4. Casgliad a Gwaith yn y Dyfodol

Mae cyhoeddi'r Adroddiad Blynyddol hwn ar gyfer blwyddyn gyntaf Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024 yn ein galluogi i gydnabod y gwaith a wnaed ym mhob rhan o'r sefydliad i ddatblygu ein hymrwymiad i gydraddoldeb ac amrywiaeth. Yn ystod y cyfnod hwn, er gwaethaf heriau'r pandemig, gwnaethom barhau i wella'r ffordd yr ydym yn darparu gwasanaethau, yn ogystal ag ymdrechion i gynyddu ein dealltwriaeth o anghenion a safbwyntiau'r rhai sy'n eu defnyddio nhw. Gwnaethom gynnal ein gwaith partner er mwyn darparu cymorth mwy cynhwysfawr i unigolion sy'n agored i niwed, gan chwilio am gyfleoedd cydweithredol newydd.

Gwnaethom ddechrau ar raglen sylweddol o waith i fynd i'r afael â hiliaeth ac anghydraddoldeb hiliol yn y system cyfiawnder troseddol yng Ngwent. Mae hwn yn ymrwymiad enfawr i'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl, ac rydym yn edrych ymlaen at glywed ein cymunedau'n adrodd am newid go iawn wrth i ni ddatblygu'r gweithgareddau sydd wedi cael eu trefnu.

Rydym wedi parhau i gefnogi a herio Heddlu Gwent trwy ein gwaith craffu ar eu defnydd o rym a stopio a chwilio, gan hwyluso rhoi nifer o newidiadau cadarnhaol ar waith a datblygu hunanasesiad mwy effeithiol o arferion plismona lleol. Mae ffocws parhaol ar y defnydd o'r ddalfa ar gyfer cadw unigolion o dan Adran 136 ac effaith y Tîm Brysbennu Iechyd Meddwl yn gadarnhaol iawn, sy'n adlewyrchu ein hymrwymiad i wella profiadau pobl sy'n profi argyfwng iechyd meddwl yng Ngwent.

Mae'r ddarpariaeth o gynlluniau ariannu i gefnogi plant a phobl ifanc wedi parhau i wneud gwahaniaeth, yn enwedig mewn ardaloedd daearyddol lle mae rhagor o amddifadedd economaidd-gymdeithasol. Parhaodd ein cynlluniau dargyfeirio i roi cyfleoedd i unigolion gael gafael ar gymorth a chefnogaeth ac i leihau effaith ehangach eu gweithredoedd.

Croesawyd gwaith recriwtio ychwanegol gan Heddlu Gwent o dan Ymgyrch Uplift a'r defnydd o fentrau gweithredu cadarnhaol gydag ymgeiswyr o leiafrifoedd ethnig. Rydym yn edrych ymlaen at weld cynnydd pellach mewn recriwtio a byddwn yn parhau i gefnogi Heddlu Gwent i gadw a datblygu swyddogion a staff o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn llwyddiannus.

Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod llawer i'w wneud o hyd o ran sicrhau y darperir gwasanaeth plismona sy'n ennyn hyder mewn cymunedau lleol gan eu hadlewyrchu. Mae meithrin diwylliant sefydliadol sy'n dangos pwysigrwydd cydraddoldeb a chynwysoldeb yn elfen allweddol o'n llwyddiant ac mae'n rhaid inni barhau i weithio gyda thryloywder a dangos ein bod yn atebol. Drwy wneud hyn, ein nod yw darparu gwasanaeth o ansawdd uchel y gall cymunedau amrywiol Gwent ei ddefnyddio'n hyderus ac ymgysylltu ag ef. Bydd Cynllun Heddlu a Throsedd newydd y Comisiynydd, a fydd yn destun ymgynghoriad cyhoeddus ac yn cael ei gyhoeddi yn 2021/22, yn un o'r sbardunau i'r gwaith hwn. Yn dilyn hyn, bydd y CCS a'r Cynlluniau Cyflawni'n cael eu hadolygu i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â blaenoriaethau ac

ymrwymiadau'r Cynllun Heddlu a Throsedd. Caiff y prif feysydd y bydd Swyddfa'r Comisiynydd yn canolbwyntio arnynt yn ystod y cyfnod nesaf eu crynhoi yn y tabl canlynol.

Crynodeb o Gynllun Cyflawni Swyddfa'r Comisiynydd ar gyfer Cam 1, Blwyddyn 2 - 2021/22

Cyffredinol

- Diweddarau'r CCS a'r Cynlluniau Cyflawni i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â blaenoriaethau'r Cynllun Heddlu a Throsedd newydd.
- Gweithio gyda Chymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd (APCC) i gefnogi'r gwaith o ddatblygu a gweithredu'r Fframwaith Cydraddoldeb cenedlaethol ar gyfer comisiynwyr yr heddlu a throsedd a'u swyddfeydd.

Amcan Cydraddoldeb 1 – Cefnogi Pobl sy'n Agored i Niwed

- Sicrhau bod defnydd Heddlu Gwent o bolisiau fetio yn effeithiol ac yn cefnogi amcanion VAWDASV
- Gweithio gyda Heddlu Gwent a phartneriaid i wella gwaith cofnodi a chyfraddau erlyn troseddau casineb
- Gweithio gyda phartneriaid Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru i ddeall a rhoi sylw i anghenion a bregusrwydd dioddefwyr a thystion ar bob cam o'u profiad yn y system cyfiawnder troseddol
- Datblygu prosesau monitro effeithiol ar gyfer cydymffurfio â'r Cod Dioddefwyr, sy'n nodi pa mor dda mae asiantaethau'n cefnogi dioddefwyr agored i niwed yn y system cyfiawnder troseddol
- Cefnogi Heddlu Gwent i ganfod mwy o droseddau cudd neu heb eu riportio, gan gynnwys cam-drin domestig, treisio, cam-fanteisio troseddol a rhywiol ar blant a chaethwasiaeth fodern a masnachu pobl
- Gweithio gyda phartneriaid Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru i ddeall a rhoi sylw i fregusrwydd a/neu anghenion lluosog a chymhleth pobl sy'n troseddu

Amcan Cydraddoldeb 2 - Cyfreithlondeb a Thegwch

- Cefnogi gwaith i gyflawni canlyniadau sy'n cyd-fynd â'r gwaith anghydraddoldeb yn y system cyfiawnder troseddol, gan gynnwys data, ymgysylltu â'r gymuned a Chynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru
- Defnyddio Pecyn Cymorth Gwahaniaethau ar sail Hil Cymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd i gefnogi a datblygu dulliau ar gyfer mynd i'r afael â gwahaniaethau a thynnu sylw at arfer da yng Ngwent
- Gweithio gyda Heddlu Gwent i ddatblygu ac amrywio cyfranogiad y cyhoedd yn ein prosesau craffu annibynnol
- Gweithio gyda Heddlu Gwent a phartneriaid i ddatblygu dulliau Plismona sy'n Canolbwyntio ar y Plentyn, yn arbennig o ran stopio a chwilio a defnyddio grym
- Ymgysylltu'n effeithiol â sectorau trydydd sector, fel EYST a Race Equality First, i roi sylw i faterion a phryderon cymunedol sy'n gysylltiedig â phlismona a chyfiawnder troseddol
- Gweithio gyda Heddlu Gwent i gefnogi a datblygu rôl craffu a ffrind beirniadol y Grŵp Cynghori Annibynnol

Amcan Cydraddoldeb 3 - Mynediad, Ymgysylltu a Chydlyniant

- Datblygu gwaith casglu data cydraddoldeb ac uniondeb data cydraddoldeb ymhellach, gan gynnwys monitro amrywiaeth ar draws gwasanaethau a gomisiynir gan Swyddfa'r Comisiynydd ac adrannau arbenigol Heddlu Gwent
- Sicrhau bod yr wybodaeth a'r cyhoeddiadau a gynhyrchir gan Swyddfa'r Comisiynydd yn hygyrch, yn arbennig i bobl â gwahanol anableddau
- Datblygu Fframwaith Perfformiad hygyrch, y gellir ei ddefnyddio, ar gyfer perfformiad Heddlu Gwent a Swyddfa'r Comisiynydd
- Cefnogi cymunedau sy'n fregus oherwydd y nodweddion gwarchoddedig i allu dygymod â throsedd yn well
- Gweithio gyda Heddlu Gwent a phartneriaid i gynyddu faint o droseddau sy'n cael eu riportio gan gymunedau sy'n llai tebygol o ymgysylltu â'r heddlu
- Gweithio i gyflawni dyfarniad Nod Barcud Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol

Amcan Cydraddoldeb 4 – Creu Gweithlu Cynhwysol a Hyrwyddo Tegwch

- Ymgorffori a datblygu'r canlyniadau ac argymhellion o'r gwaith Cyflogwr Chwarae Teg/Fair Play
- Gweithio gyda Heddlu Gwent i gyflawni Strategaeth y Gymraeg ymhellach ar draws y ddau sefydliad
- Adolygu dysgu a datblygu Swyddfa'r Comisiynydd o ran cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant er mwyn cefnogi ymwybyddiaeth a chymhwysedd staff ar draws y nodweddion gwarchoddedig
- Sicrhau bod prosesau cynllunio, recriwtio a datblygu, gan gynnwys Ymgyrch Uplift, yn darparu cynrychiolaeth a chynaliadwyedd gweithlu sy'n bodloni gofynion plismona modern
- Gweithio gyda Heddlu Gwent i sicrhau bod rhaglen hyfforddiant cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant effeithiol a chynaliadwy yn cael ei chynllunio a'i darparu i'r holl swyddogion a staff
- Datblygu ymrwymiad Swyddfa'r Comisiynydd i'r mudiad HeForShe trwy'r cynllun gweithredu

5. Monitro a Chraffu

Mae Swyddfa'r Comisiynydd yn monitro cynnydd Heddlu Gwent yn erbyn yr amcanion cydraddoldeb yn y Bwrdd Strategaeth Pobl mewnol ac mae adroddiadau rheolaidd, gan gynnwys yr Adroddiad Blyneddol ar y CCS, yn cael eu cyflwyno i Fwrdd Strategaeth a Pherfformiad y Comisiynydd. Byddwn yn parhau i weithio gyda'r llu i sicrhau bod ei brosesau llywodraethu'n cefnogi gwaith craffu effeithiol ar faterion cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant fel y'u cynhwysir yn y CCS. Bydd hyn yn cynnwys unrhyw waith gwella gofynnol a argymhellir gan gyrff allanol megis Arolygiaeth Cwnstabiliaeth, Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi.

Mae Bwrdd Rheoli Swyddfa'r Comisiynydd yn derbyn adroddiad ar gynnydd gan Swyddfa'r Comisiynydd. Darperir Adroddiad Blyneddol ar Gynllun Cydraddoldeb Swyddfa'r Comisiynydd i'r Panel Heddlu a Throsedd hefyd i'w ystyried ac am sylwadau ynghylch sut rydym wedi perfformio yn erbyn yr amcanion cydraddoldeb.

6. Cysylltu â ni

I gael rhagor o wybodaeth am ein gwaith ar gydraddoldeb ac amrywiaeth, cysylltwch â:

Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd Pencadlys yr Heddlu Croesyceiliog Cwmbrân Torfaen NP44 2XJ Ffôn: 01633 642200 E-bostiwch: Commissioner@gwent.pnn.police.uk www.gwent.pcc.police.uk	Tîm Amrywiaeth a Chynhwysiant Heddlu Gwent Pencadlys yr Heddlu Croesyceiliog Cwmbrân Torfaen. NP44 2XJ Ffôn: 01633 247907 E-bostiwch: Diversityandinclusion@gwent.pnn.police.uk www.gwent.police.uk
---	--